Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Proffiliau Swyddi

CYNNWYS

THERAPYDDION CELF
Tudalen 3

THERAPYDDION DRAMA
Tudalen 5

DEIETEGWYR
Tudalen 7

THERAPYDDION CERDD
Tudalen 13

THERAPYDDION GALWEDIGAETHOL
Tudalen 15

ORTHOPTWYR
Tudalen 20

ORTHOTYDDION
Tudalen 26

PARAFEDDYGON
Tudalen 28

FFISIOTHERAPYDDION
Tudalen 31

PODIATRYDDION
Tudalen 41


SEICOLEGWYR SY'N YMARFERWYR
Tudalen 44

PROSTHETYDDION
Tudalen 46

THERAPYDDION IAITH A LLEFERYDD
Tudalen 48



THERAPYDDION CELF

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Phil McFadden

Teitl swydd: Seicotherapydd Celf

Lleoliad y gwaith: Canolfan Adnoddau Bro Cerwyn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Seicoleg (Iechyd Meddwl Oedolion)

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n defnyddio sgiliau cyffredinol i helpu pobl ag anawsterau iechyd meddwl i ystyried a allai therapi Celf fod o les iddynt; ac os na, rwy'n atgyfeirio'r claf at wasanaethau eraill a allai fod yn llesol. Drwy Therapi Celf rwy'n ceisio helpu pobl i gyfleu (yn weledol fel arfer) drwy ddisgrifio, mewn rhyw ffordd, eu hymateb emosiynol i'w profiadau. Mae'r gelf yn aml yn drosiadol (perthyn i fetaffor) gan helpu pobl i ystyried, o bellter, pethau a ddigwyddodd oedd efallai'n drawmatig neu gythryblus, ac agor eu meddyliau hefyd i'r posibilrwydd o edrych ar y profiadau hynny'n wahanol a chysidro posibiliadau newydd. Gan mai'r client sy'n creu'r gelfyddyd, mae eu hamgyffred o bethau'n hunan-wneuthurol fel bod twf ymreolaethol yn fwy tebygol. Ar wahanol bwyntiau yn y broses rwy'n adolygu'r cynnydd gyda'r client gan drafod gyda, ac adrodd i, aelodau eraill o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Cymdeithasol a meddygon teulu.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Mae pob sesiwn yn wahanol. Y peth gorau yw pan fydd rhywun yn gweld rhywbeth yn eu gwaith sy'n rhoi dealltwriaeth newydd ac agor drws gwahanol i weddill eu bywydau.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Gwylio pobl yn tyfu.

Sut gyrhaeddais i yma:

Artist yn ennill bywoliaeth drwy dynnu lluniau ar balmentydd oeddwn. Drwy hyn mi wnes i gyfarfod llawer o bobl oedd wedi dieithrio o fywyd a ddangosodd eu cerddi a'u sgetsys i mi. Clywais am y cwrs hyfforddiant ôl-radd mewn Therapi Celf ac ymgeisio. Cefais fy nerbyn gan Brifysgol Sheffield.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun gyda digon o brofiad o greu eu celf eu hunain ac o ennill dealltwriaeth ddyfnach ohonynt eu hunain, gyda neu heb arweiniad, ond sy'n dymuno tywys eraill i ddysgu drwy eu profiadau'n hytrach na thrwy ddysgu rheolau neu ddulliau iddynt.



THERAPYDDION DRAMA

Life as an Allied Health Professional (AHP)

Name: Esyllt George
Job title: Therapydd Drama Llawrydd a Chydlynydd Celfyddydau ac Iechyd y GIG
Location of work: Practis preifat a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

What does my job role as an AHP involve?

Fel Therapydd Drama mae fy rôl yn cynnwys therapi ymyriadau creadigol, gan weithio gyda grwpiau ac unigolion yn y gymuned. Fel Cydlynydd Celfyddydau ac Iechyd y GIG rwy'n cydlynu'r ymyriadau celf er iechyd a lles ar ran y GIG.

What do you enjoy about your job?

Rwy'n mwynhau'r amrywiaeth, creadigrwydd a'r rhyngweithio rhwng y therapïau celf a'r ymyriadau celf er iechyd a lles.

What are your career ambitions?

Rwy'n datblygu sesiynau goruchwylio creadigol ar gyfer therapyddion celf ac artistiaid sy'n gweithio yn y celfyddydau ac iechyd.

How did you get into your role?

Cyflawnais radd ac yna cymhwyster ôl-raddedig fel Therapydd Drama wedi'i gymeradwyo gan yr HCPC.

What kind of person does your job suit?

Byddai'r rôl hon yn addas ar gyfer rhywun sydd â diddordeb yn y cydadwaith rhwng seicoleg a'r manteision iechyd sydd i fynegiant creadigol. Yn ogystal, byddai'n addas i rywun sy'n rhwydweithiwr brwd ac sydd â'r gallu i wneud sawl tasg ar yr un pryd.

For more information on the roles of AHPs and routes of entry, visit our website
http://ow.ly/sPiK50EzAHM

DEIETEGWYR

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Alexandra Rees

Teitl swydd: Deietegydd Arweiniol Clinigol ar gyfer Tîm Cymunedol Lles Dementia

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rydw i'n gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys seicolegydd clinigol, therapydd iaith a lleferydd, therapydd galwedigaethol a fferyllydd i roi cyngor a chymorth i'r sawl sy'n gofalu am bobl sy'n byw â dementia. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cydweithwyr deietegol cymunedol eraill, cyflwyno hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a staff cartrefi gofal a darparu mewnbwn arbenigol fel tîm i helpu i atal straen a gofid ar ran pobl sy'n byw gyda dementia. Rydw i'n gweithio gartref ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ac rydw i wedi darparu ymgynghoriadau dros y ffôn yn ogystal ag ymgynghoriadau rhithwir. Unwaith y bydd y cyfyngiadau'n cael eu codi byddwn yn darparu ymweliadau i gefnogi cartrefi gofal yn uniongyrchol. Mae prosiectau diweddar eraill yn cynnwys datblygu pecyn hyfforddi ar-lein i'w ddarparu i gartrefi gofal a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rydw i'n mwynhau gweithio gydag ystod eang o bobl gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a staff gofal eraill. Rydw i'n mwynhau dysgu am ddatblygiadau maetheg newydd ac ers imi gychwyn fy rôl newydd rydw i wedi mwynhau dysgu mwy am ddementia ac, yn arbennig felly, am ddull mwy seicogymdeithasol o ddarparu cyngor a chymorth deietegol. Rydw i hefyd yn mwynhau cwrdd â phobl newydd a gallu helpu pobl i wella eu lles drwy welliannau o ran eu maethiad neu o ran eu gwybodaeth am faetheg. Rydw i hefyd yn mawr fwynhau datblygu a darparu hyfforddiant.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Hoffwn hyrwyddo rôl Deieteg yn enwedig o fewn maetheg ym maes dementia. Rydw i'n gobeithio gallu profi ein gwerth fel proffesiwn yn y maes hwn i ennyn mwy o gyfleoedd ar gyfer deietegwyr eraill i arbenigo yn y maes hwn yn ogystal â chael cynrychiolaeth ehangach o fewn Llywodraeth Cymru ym mherthynas Deieteg.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Alexandra Rees

Teitl swydd: Deietegydd Arweiniol Clinigol ar gyfer Tîm Cymunedol Lles Dementia

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Sut gyrhaeddais i yma:

Mi wnes i astudio Biocemeg a Geneteg ym Mhrifysgol Nottingham lle bu i mi dderbyn 2:1. Mi wnes i fwynhau dysgu am eneteg yn arbennig ond doeddwn i ddim eisiau bod yn athro na chynnal gwaith mewn labordy ymchwil. Mi es i i Ffair Yrfaoedd yn Llundain ac ymgeisio'n llwyddiannus i fod yn un o naw o raddedigion o Brydain i gael eu hyfforddi yn Efrog Newydd gan y cwmni manwerthu Abercrombie & Fitch. Roeddwn yn rhan o'r tîm a agorodd siop gyntaf Abercrombie & Fitch yn Llundain. Yn ystod y cyfnod hwn, mi wnes i ddatblygu diddordeb mewn maetheg a bwyta'n iach ac ro'n i'n hiraethu am wyddoniaeth felly mi wnes i gais am Ddiploma Ôl-raddedig mewn Deieteg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Roedd fy swydd Band pump gyntaf yn ninas Durham fel Deietegydd cymunedol/acíwt am flwyddyn o gyfnod mamolaeth. Yna mi wnes i symud yn f'ôl i Gymru i dderbyn swydd newydd Deietegydd Cymorth Cartref Gofal Band chwech, ac ar ôl blwyddyn mi ges i hanner dyrchafiad i fod yn Ddeietegydd Cymorth Maeth Cymunedol Band saith. Mi wnes i gynnal y rôl ddwyran hon nes i mi ddychwelyd yn rhan-amser yn dilyn absenoldeb mamolaeth a dod yn Ddeietegydd Cymorth Maeth Cymunedol yn unig. Yna mi wnes i gychwyn fy rôl bresennol ym mis Mai 2020 ar ôl dychwelyd o'm hail absenoldeb mamolaeth.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Â diddordeb brwd mewn maetheg ac yn mwynhau dysgu pethau newydd. Yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm ac yn mwynhau rhyngweithio ag ystod eang o bobl. Mae angen i chi fod yn un sy'n mwynhau siarad â phobl yn ogystal â gallu uniaethu a gallu, ar adegau, trosi gwybodaeth gymhleth am faeth yn gyngor hawdd ei ddeall. Mae angen i chi hefyd fod yn drefnus a mwynhau'r ffaith y gall pob diwrnod fod yn wahanol.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Jane Spivey
Teitl swydd: Dietegydd Arbenigol / Dietegydd Gastroenteroleg Arweiniol Cymunedol
Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe and Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n rhoi cyngor a gofal maeth ar sail tystiolaeth i bobl sy'n byw gyda phroblemau iechyd hirdymor a chronig, yn yr ysbyty a'r cartref, er enghraifft ar gyfer canser a chlefydau'r system dreulio fel clefyd llid y coluddyn (clefyd Crohn, colitis briwiol), clefyd yr iau a llid y pancreas. Yn y gymuned a'r ysbyty, rwy'n gweithio gyda thîm o weithwyr iechyd yn cynnwys meddygon, nyrsys, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a meddygon teulu i ddarparu gofal holistig a pherson-ganolog. Rwy'n grymuso'r claf i ddeall pwysigrwydd maeth gan roi strategaethau iddynt er mwyn gallu gwella eu symptomau a'u cadw mor iach â phosib. Rwy'n oruchwyliwr ac addysgwr ac yn goruchwylio a rhoi cymorth i fyfyrwyr-ddietegwyr, dietegwyr newydd ymuno a staff cymorth dietetig. Rwy'n arloeswr ac yn gweithio'n greadigol i gyflawni amcanion y gwasanaeth dietetig a'r Bwrdd Iechyd ehangach drwy wella gwasanaethau.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Gall fod mor amrywiol a chynnig swyddi mewn amrywiaeth o sectorau'n cynnwys gofal iechyd cyhoeddus a phreifat, elusennau, y cyfryngau / liwt eich hun, iechyd cyhoeddus ac mewn diwydiant. Mae'n werth chweil iawn gweithio gyda phobl i wella eu hiechyd, yn enwedig drwy weithio'n effeithiol fel tîm gydag amcanion cyffredin – er enghraifft drwy helpu unigolyn i adfer eu hiechyd drwy adsefydlu ar ôl strôc neu wella iechyd rhywun yn barod i dderbyn triniaeth am ganser er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posib drwy rag-sefydlu.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Mae oncoleg yn agos iawn at fy nghalon ac ar hyn o bryd rwy'n gweithio i ennill gymaint o brofiad â phosib drwy secondiad a gwahanol sectorau, gan gynnwys elusen ganser ac mewn byrddau iechyd eraill i wella fy mhrofiad a'm gwybodaeth o ganser. Rwy'n gobeithio rhyw ddydd gallu gweithio fel dietegydd canser arbenigol ac arwain gwasanaeth. Mae gen i ddiddordeb arbennig mewn rhag-sefydlu canser.

Sut gyrhaeddais i yma:

Nid oeddwn yn sylweddoli bod gennyf ddiddordeb mewn maeth tan fy Lefel A, felly i ddechrau mi wnes i gwblhau gradd BSc mewn Maeth a Gwyddorau Iechyd (Prifysgol Teeside) lle cefais fy nghyflwyno i Faeth a Dieteteg. Gwyddwn erioed fy mod eisiau gweithio mewn gofal iechyd a bod gen i ddiddordeb mewn gwyddoniaeth, felly cefais fy ysbrydoli i ddewis yr yrfa hon. I ennill mwy o brofiad, gweithiais i ddechrau fel gweithiwr cymorth dietetig wnaeth fy rhoi mewn sefyllfa dda i ymgeisio am a llwyddo i gofrestru ar gwrs diploma ôl-radd gyda modiwlau Meistr mewn Maeth a Dieteteg (Prifysgol Metropolitan Caerdydd).

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Jane Spivey
Teitl swydd: Dietegydd Arbenigol / Dietegydd Gastroenteroleg Arweiniol Cymunedol
Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe and Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwyddoniaeth, yn enwedig bioleg a chemeg, a'i gymhwysiad i faeth ac iechyd. Mae hefyd yn helpu os ydych yn hoff o fwyd! Mae angen sgiliau pobl a chyfathrebu da, oherwydd yn y proffesiwn hwn byddwch yn dod ar draws cleifion o bob cefndir, ac yn gweithio gyda'r tîm aml-ddisgyblaeth. Mae rhwydweithio o fewn y proffesiwn, a meddwl y tu allan i'r proffesiwn fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, yn hanfodol i hunanddatblygiad a dysgu ac yn arwain at ffordd fwy effeithlon ac effeithiol o weithio gyda Gweithwyr Proffesiynol eraill Perthynol i Iechyd. Mae meddwl agored a chreadigol yn helpu i ddatrys problemau i oresgyn rhwystrau i newid naill ai drwy weithio gyda chlaf i ganfod y prif bethau sy'n effeithio ar eu hiechyd a chytuno ar newidiadau, neu drwy adnabod pethau sydd angen eu gwella yn y gwasanaeth a dylanwadu ar newid.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Catrin Hill

Teitl swydd: Dietegydd Cofrestredig

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Fy ngwaith i yw helpu pobl ag anghenion a phryderon maeth a chefnogi pobl gydag anghenion iechyd lle mae maeth yn effeithio arnynt. Er enghraifft, gall dietegydd gefnogi a chynnig cyngor i glaf gyda phroblem iechyd sy'n achosi iddynt golli pwysau neu'n lleihau eu chwant bwyd. Mae dietegwyr yn gweithio mewn amryw o wahanol leoliadau. Mewn ysbytai prysur, gweithiwn yn agos ochr yn ochr â gweithwyr iechyd eraill i ddarparu cymorth maeth i gleifion sy'n sâl iawn ac angen llawer o gymorth i wella. Mae dietegwyr hefyd yn gweithio ym maes iechyd cyhoeddus i roi cyngor iechyd cyhoeddus ar sail tystiolaeth, a hefyd mewn gofal sylfaenol i gefnogi pobl ag anghenion iechyd a maeth ond nad ydynt mewn ysbyty. Mae bod yn ddietegydd yn waith amrywiol iawn a gallwch fod yn gweithio gyda, a helpu, cleifion o bob oed - o fabanod ifanc iawn i bobl oedrannus, a phobl sydd ag ystod eang iawn o gyflyrau iechyd.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau amrywiaeth y rôl yn ofnadwy; yn enwedig y gwahanol bobl o bob cefndir yr wyf yn eu cyfarfod a gweithio gyda nhw o ddydd i ddydd. Mae bod yn ddietegydd yn alwedigaeth tîm ac rwy'n gweithio'n ddyddiol gyda phroffesiynau iechyd eraill fel nyrsys, meddygon a therapyddion iaith a lleferydd. Rwyf hefyd wrth fy modd yn dysgu am wyddoniaeth maeth!

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Y peth da am ddieteteg yw bod y cyfleoedd gyrfa'n eang gyda digon o gyfle i weithio ac arbenigo mewn gwahanol feysydd dieteteg / iechyd. Dim ond yn y 12 mis diwethaf yr wyf wedi graddio a dod yn ddietegydd cofrestredig ond, yn barod, cefais gyfle i weithio mewn nifer o wahanol feysydd clinigol a helpu cleifion ag amrywiaeth o gyflyrau meddygol. Yn y dyfodol, gallaf ddefnyddio'r holl brofiadau hyn cyn penderfynu ar faes dieteteg ac iechyd y byddwn yn hoffi arbenigo ynddo, fel dieteteg bediatrig neu ddieteteg gastroenteroleg.
Rwyf hefyd yn edrych ymlaen, gobeithio, at hyrwyddo mwy ar ddieteteg – mae rôl dietegydd yn cael ei chamddeall yn aml!

Sut gyrhaeddais i yma:

Cefais y swydd drwy wneud gradd is-raddedig tair blynedd mewn Maeth a Dieteteg. Mae graddau ôl-radd hefyd ar gael! Mae'r gofynion mynediad ar gyfer y radd yn cynnwys Lefel A mewn pynciau gwyddoniaeth, er bod Cyrsiau Mynediad neu Raddau Sylfaen hefyd yn ffordd o fynd ar y rhaglen radd os nad yw'r pynciau Lefel A gofynnol gennych; dyna wnes i. Os oes gennych ddiddordeb mewn cael gyrfa mewn dieteteg, mae'n werth mynd ar wefannau prifysgolion sy'n cynnig y cwrs gradd hwn i weld beth fydd angen i'ch cam nesaf fod cyn gallu ymgeisio.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Byddai'r rôl yn sicr yn addas i berson 'pobl' sy'n ofalgar wrth natur ac sydd â diddordeb brwd mewn gofal iechyd. Byddai hefyd yn addas i rywun gyda diddordeb mewn gwyddoniaeth, yn enwedig gwyddor iechyd a gwyddor maeth. Mae gymaint o bethau cyffrous i'w dysgu a'u darganfod am faeth ac iechyd! Os byddech yn hoffi gyrfa mewn gofal iechyd, yn mwynhau gweithio gyda phobl eraill a gyda diddordeb mewn maeth pobl – gallai dieteteg fod i chi!

For more information on the roles of AHPs and routes of entry, visit our website
http://ow.ly/sPiK50EzAHM



THERAPYDDION CERDD

Life as an Allied Health Professional (AHP)

Enw: Ben Cowley
Teitl swydd: Therapydd Cerdd
Lleoliad y gwaith: Addysg Uwch

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Darparu cymorth emosiynol a seicolegol arbenigol gyda gallu unigryw i dynnu ar gydrannau cerddoriaeth er mwyn darparu'r cymorth hwnnw mewn cyd-destun a natur breifat y berthynas therapiwtig. Mae'r ffordd y caiff therapi cerdd ei gyflwyno yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i deilwra gyda nod therapiwtig mewn golwg ar gyfer bob cleient. Gallai fod ar sail un i un neu mewn senarios grŵp. Er bod y ffyrdd y gellir defnyddio cerddoriaeth yn ddiderfyn, gallai therapi cerdd gynnwys gwaith fel ysgrifennu caneuon, addasu gan ddefnyddio offerynnau cerdd, canu, dadansoddi telynegion, ac ymarferion rhythm penodol. Efallai mai dim ond dymuno siarad â rhywun sy'n gadarn ac yn deall eu brwydrau mae rhai cleientiaid. Nid oes angen i chi fod yn berfformiwr na meddu ar unrhyw wybodaeth gerddorol er mwyn elwa ar therapi cerdd. Mae'n addas ar gyfer unrhyw un. Yn aml, mae therapyddion cerdd i'w cael mewn practis preifat, y GIG a rhai sectorau preifat, yn enwedig cartrefi gofal a lleoliadau addysg arbennig.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau gallu cynnig atebion mwy creadigol lle gall fod yn anodd i gleient ddod o hyd i'r geiriau. Ar hyn o bryd rwy'n gweithio mewn conservatoire lle rwy'n darparu Cymorth Mentora Arbenigol. Mae'r ffyrdd y gallaf uniaethu â'm cleientiaid ar lefel ymarferol wedi bod yn amhrisiadwy i'r gwaith.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Hoffwn weld therapyddion cerdd mewn rolau mwy prif ffrwd a thraws ddisgyblaethol. Mae'n broffesiwn sy'n cael ei gamddeall yn aml ond yn fy marn i, mae ganddo lefel uchel o sgil a fyddai'n werthfawr mewn llu o rolau gofal iechyd.

Sut gyrhaeddais i yma:

Cwblheais radd BA mewn Cerddoriaeth ac yna MA mewn Therapi Cerdd. Dyma'r unig lwybr i mewn i'r proffesiwn ar hyn o bryd ond ystyrir graddau israddedig eraill os gallwch ddangos lefel uchel o allu cerddorol. Ar ôl graddio o'r rhaglen MA rydych yn gymwys i gofrestru gyda'r HCPC a dechrau ymarfer.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Yn addas ar gyfer rhywun sy'n hoffi'r syniad o ddefnyddio ei greadigrwydd er lles iechyd rhywun.

For more information on the roles of AHPs and routes of entry, visit our website
http://ow.ly/sPiK50EzAHM



THERAPYDDION GALWEDIGAETHOL

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Emma Isaac

Teitl swydd: Therapydd Galwedigaethol

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Yr Adran Gymunedau
Y Tîm Adnoddau Cymunedol

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n gweithio ar y cyd â'r tîm bathodyn glas yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin drwy gwblhau asesiadau symudedd ar gyfer yr holl geisiadau bathodyn glas yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn cynnwys cwblhau asesiadau symudedd safonol gydag ymgeiswyr i sicrhau cysondeb a chydraddoldeb wrth gyflenwi bathodynnau glas symudedd yn gywir ar draws yr awdurdod.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau cwrdd ag ymgeiswyr, a lle bo'n briodol, cyflenwi bathodyn glas iddynt a chlywed sut y bydd hynny'n eu gwneud yn fwy annibynnol ac yn gwella ansawdd eu bywyd.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Cynyddu nifer y therapyddion galwedigaethol a gyflogir yn y rôl hon i sicrhau cysondeb o ran cydraddoldeb wrth gyflenwi bathodynnau glas ar draws Cymru.

Sut gyrhaeddais i yma:

Tair Lefel A
Gradd BSc Anrhydedd mewn Therapi Galwedigaethol

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n mwynhau helpu pobl ac yn awyddus iawn i gynnal safonau.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Zoe Parker

Teitl swydd: Therapydd Galwedigaethol Gofal Sylfaenol

Lleoliad y gwaith: Tîm Iechyd a Lles Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n asesu cleifion yn y gymuned, yn bennaf yn eu cartrefi eu hunain, drwy ddarparu cyfarpar a mân-addasiadau i'w helpu i gyflawni gweithgareddau bywyd beunyddiol mor annibynnol â phosib. Os nad yw hyn yn bosib, rwy'n gweithio gyda'r teuluoedd ac asiantaethau cymorth neu sefydliadau eraill fel bo'r client yn gallu parhau i fyw ble maen nhw'n dymuno. Fy nod yw cadw pobl yn iach ac egnïol yn eu cartrefi drwy gynnal anghenion iechyd y client a'u hatal rhag cael eu derbyn i'r ysbyty. Rwy'n cynorthwyo'r claf i gynnal neu wella ansawdd eu bywydau gan wneud cynlluniau gyda nhw i sicrhau eu bod yn cyfrannu at benderfyniadau am eu gofal a'u hanghenion. Rwy'n ceisio arbed unrhyw gymorth gan feddyg teulu a staff gofal sylfaenol drwy gynnal anghenion cymdeithasol, symudedd a lles eu cleifion.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau natur berson-ganolog y gwaith yn fawr, yn gallu ymgysylltu â chleifion yn eu hamgylchedd eu hunain ac felly'n gallu rhoi cyngor a chynllunio cymorth sy'n addas a phriodol yn eu barn nhw.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Hoffwn fod yn OT gofal sylfaenol arbenigol a chreu mwy o gyfleoedd yn fy rôl i ddatblygu cysylltiadau hyfforddi gyda staff meddygol.

Sut gyrhaeddais i yma:

Roeddwn mewn swydd OT dan hyfforddiant gan fynychu cwrs OT rhan amser am bedair blynedd yng Nghaerdydd. Roeddwn yn gweithio pedwar diwrnod a hyfforddi un diwrnod yr wythnos yn Eastgate House. Drwy wneud hynny roeddwn yn ennill cyflog i dalu'r morgais a'r biliau a hyfforddi fel myfyriwr hŷn ar yr un pryd.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Byddai fy swydd yn addas i OT sy'n hyblyg, yn gallu gweithio'n beripatetig mewn tîm a hefyd mewn practis fel gweithiwr proffesiynol unigol. Byddai angen i'r person fod yn gyfeillgar a gallu gweithio ar draws ffiniau'r rôl i gynorthwyo meddygon teulu a staff i ddarparu'r agenda gofal sylfaenol gan gynnal eu sgiliau OT craidd a gallu cyfleu'r sgiliau hynny'n llafar i eraill.

For more information on the roles of AHPs and routes of entry, visit our website
http://ow.ly/sPiK50EzAHM

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Rebekah Daniel

Teitl swydd: Therapydd Galwedigaethol

Lleoliad y gwaith: Tîm Iechyd a Lles Cymunedol, Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n Therapydd Galwedigaethol. Rwy'n gweithio mewn tîm bychan o weithwyr gofal iechyd eraill ac asiantaethau trydydd sector, wedi'i gysylltu i'ch meddygfa i'ch helpu i gadw'n iach yn eich cartref eich hunan. Gallai fod drwy roi cyngor neu drwy ddarparu darnau bach o gyfarpar i chi. Y nod yw eich helpu i aros mor annibynnol â phosib am gyn hired â phosib. Rwy'n edrych ar beth sy'n bwysig i chi a cheisio rhoi cymorth i gynnal eich sgiliau a'ch gweithgareddau. Mae hyn yn eich helpu i edrych ar ôl eich hun a gwella eich iechyd a'ch lles.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau amrywiaeth fy rôl. Mae pob dydd yn wahanol. Rwy'n hoffi cyf… gwybod fy mod wedi gwneud gwahaniaeth. Mae'n deimlad gwerth chweil iawn helpu p… wneud rhywbeth nad ydynt wedi gallu ei wneud ers tro.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Hoffwn barhau i weithio i'r GIG.

Sut gyrhaeddais i yma:

Roeddwn yn arfer â bod yn gymhorthydd personol rhithiol ond gwyddwn ers tro fy mod eisiau bod yn Therapydd Galwedigaethol (OT). Mi es i'r brifysgol yn gymharol hwyr a graddio'n 40 oed. Rwyf wedi gweithio i'r un bwrdd iechyd ers bron i saith blynedd gan ennill dyrchafiad i fy swydd bresennol.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

.... yn hoffi helpu pobl i gyflawni'r pethau sy'n bwysig iddynt. Rhywun sy'n gallu meddwl yn greadigol os nad yw'r ateb yn amlwg. Hefyd yn addas i rywun cyfeillgar, amyneddgar a gyda sgiliau cyfathrebu da.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Emily McCarthy

Teitl swydd: Therapydd Galwedigaethol

Lleoliad y gwaith: Gwasanaeth Asesu Cof, Parc Iechyd Keir Hardie, Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Darparu asesiad ac ymyrraeth therapi galwedigaethol i bobl o fewn gofal sylfaenol sydd â phryderon am eu cof neu wedi colli sgiliau swyddogaeth gwybyddol. Cefnogi'r tîm amlddisgyblaethol (MDT) i ddarparu proffil galwedigaethol unigol i lywio diagnosis. Gweithio gyda phobl i gymryd rhan mewn strategaethau i gefnogi eu pryderon gwybyddol a'u cof. Gellir cyflawni hyn drwy ddatblygu rhaglenni unigol gan ddefnyddio adnoddau megis technoleg ddigidol, byrddau gwyn, clociau cof ac arfer ysgogedig i atgyfnerthu dysgu a hyrwyddo cadw gwybodaeth.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Gweithio gyda chleifion, gwrando ar eu hanghenion a gallu eu cefnogi i gyrraedd eu nodau o amgylch eu cof. Gallu gweithio gyda theuluoedd hefyd i ddarparu gwybodaeth wrthrychol am broffil a pherfformiad galwedigaethol y person, gan weld gwelliannau gyda galwedigaethau sy'n werthfawr i'r person a chynnal sgiliau sy'n bwysig iddynt.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Hoffwn barhau i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth drwy weithio gyda phobl ag anawsterau cof. Hoffwn astudio am radd Meistr er mwyn dyfnhau fy ngwybodaeth a dealltwriaeth.

Sut gyrhaeddais i yma:

Roeddwn yn beiriannydd electronig am wyth mlynedd ar ôl gadael prifysgol. Gadewais fy swydd i gael plant cyn ail-hyfforddi fel OT yn 25 oed drwy astudio PGDip mewn OT ym Mhrifysgol Caerdydd.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n teimlo'n gryf am ddarparu gofal person-ganolog ac sy'n deall sut i ystyried person yn holistig. Rhywun sy'n mwynhau meddwl yn greadigol a datrys problemau ac sy'n gwerthfawrogi pwysigrwydd hybu annibyniaeth. Rhywun sy'n gweithio'n dda mewn tîm aml-ddisgyblaeth ond hefyd yn gallu gweithio'n ymreolaethol a hyrwyddo gwerthoedd craidd y proffesiwn OT.



ORTHOPTWYR

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Rachel Leverton

Teitl swydd: Orthoptydd

Lleoliad y gwaith: Adran Orthoptig, Ysbyty Brenhinol Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n Orthoptydd. Mae hynny'n golygu fy mod yn arbenigo mewn anhwylderau gyda golwg a symudiad y llygaid. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiadau golwg ar gleifion sy'n blant ac yn oedolion, i wneud diagnosis a thrin cyflyrau fel llygad diog (amblyopia), llygad croes (strabismus) a golwg dwbl. Mae fy rôl yn golygu fy mod yn gweithio'n agos ochr yn ochr â nifer o wahanol weithwyr proffesiynol gofal iechyd gan gynnwys offthalmolegwyr (meddygon y llygaid), optometryddion a nyrsys offthalmig.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n gweithio gyda nifer o wahanol gleifion â chyflyrau gwahanol. Mae hyn yn golygu bod llawer o amrywiaeth o fewn fy swydd... does dim dau ddiwrnod byth yr un peth!

Rwyf hefyd wrth fy modd bod llawer o le i ddysgu sgiliau newydd yn barhaus a chyfleoedd i ymgymryd â rolau estynedig o fewn Orthopteg. Hyd yn hyn rwyf wedi cael y cyfle i wneud hyfforddiant pellach ac ymgymryd â rolau newydd mewn nifer o feysydd y tu allan i fy arfer. Mae hyn yn cynnwys ffotograffiaeth offthalmig (tynnu ffotograffau/sganiau o wahanol rannau o'r llygad), hyfforddi clinigol, profion maes gweledol a llawer mwy. Rwyf hefyd wedi cael cymorth i gwblhau cymhwyster Meistr ochr yn ochr â'm gwaith sy'n agor y cwmpas o ran sut y gallaf ddatblygu yn fy rôl hyd yn oed ymhellach.

Mantais arall i fy swydd yw bod ganddi gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Yn gyffredinol rwy'n gweithio yn ystod yr wythnos, oriau yn ystod y dydd. Mae hyn yn caniatáu i mi hefyd flaenoriaethu ffrindiau, teulu a ffordd o fyw iach, llawn hwyl yn ogystal â chael bywyd gwaith gwerth chweil a heriol!

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Byddwn wrth fy modd yn datblygu fy rôl i arbenigo ymhellach ym maes niwrooffthalmoleg. Mae'r maes hwn yn cynnwys asesu cleifion ag anhwylderau niwrolegol cymhleth ac anafiadau megis MS, Parkinson's a strôc. Yn aml, mae gan y cleifion hyn anhwylderau gweledol cymhleth sy'n gysylltiedig â'u cyflyrau y gall orthoptwyr chwarae rhan hanfodol wrth wneud diagnosis a thrin/rheoli.

Rwyf hefyd yn awyddus i ddatblygu fy sgiliau arwain a rheoli, yn enwedig ym maes datblygu a gwella gwasanaethau.

Byddwn hefyd yn awyddus iawn i gael profiad o weithio fel Orthoptydd dramor rhyw ddiwrnod, er mwyn dysgu sut mae pethau'n cael eu gwneud mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae galw mawr am orthoptwyr mewn sawl rhan o'r byd hefyd, yn enwedig gan fod y DU yn wlad flaenllaw ar gyfer Orthopteg!

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd



Enw: Rachel Leverton

Teitl swydd: Orthoptydd

Lleoliad y gwaith: Adran Orthoptig, Ysbyty Brenhinol Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Sut gyrhaeddais i yma:

I gymhwyso fel orthoptydd, cwblheais radd B.Med.Sci 3 blynedd ym Mhrifysgol Sheffield. Roedd gan y cwrs hwn gydbwysedd gwych o ddysgu damcaniaethol (darlithoedd, tiwtorial ac ati) yn ogystal â llawer o ddysgu ymarferol gan gynnwys lleoliadau clinigol mewn ysbytai ledled y DU. Ar ôl graddio, parheais i ddysgu gan fy mod yn gweithio mewn adran Orthoptig mewn ysbyty GIG yn Nwyrain Llundain, lle adeiladais ar fy sgiliau a phrofiad. Roeddwn i hefyd yn gallu cwblhau gradd meistr mewn rheoli gofal iechyd yn ystod yr amser hwn. Ar ôl rhai blynyddoedd, cefais swydd mewn ysbyty addysgu arall yn Llundain lle roeddwn yn gallu ymgymryd â nifer o rolau mwy arbenigol a chwblhau hyfforddiant mewnol mewn meysydd newydd gan gynnwys niwro-offthalmoleg a delweddu offthalmig. Galluogodd hyn oll i mi adeiladu cronfa o sgiliau a phrofiad yn fy rôl i sicrhau rôl gartref yn Ne Cymru.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Byddai'r rôl hon yn addas i unrhyw un sy'n gweithio'n dda yn annibynnol ac fel rhan o dîm. Mae'n rôl wych i rywun sydd â diddordeb brwd mewn anatomi/ffisioleg ddynol a rhywun sy'n dangos tosturi ac empathi gan fod gan lawer o gleifion Orthoptig gyflyrau cymhleth sy'n cyfyngu ar fywyd. Byddai'r swydd hefyd yn gofyn am rywun sy'n hoffi gweithio gyda phobl o bob oed a rhywun sydd eisiau amrywiaeth yn eu gyrfa yn y dyfodol.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Nicola Pritchard-Jones

Teitl swydd: Orthoptydd Uwch

Lleoliad y gwaith: Adran Orthoptig, Ysbyty Nevill Hall, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Fel Orthoptydd, ein rôl graidd yw gwneud diagnosis a thrin namau symudiad y llygaid a sut mae'r llygaid yn gweithio gyda'i gilydd. Rydym yn gweld ystod eang o lwyth achosion a all fod yn effeithio ar y golwg, o gam-linio'r llygaid (llygaid croes), diplopia, llai o olwg, a cholli maes gweledol. Rwyf bellach yn ymwneud â'r gwasanaeth strôc a ddarperir gan yr adran Orthoptig, a gall rhai o'r materion hyn fod yn effaith uniongyrchol strôc oherwydd diffygion yn y nerfau sy'n cyfathrebu â'r llygaid. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm amlddisgyblaethol strôc, yn darparu asesiad a diagnosis o broblemau llygaid posibl, ac yna hefyd yn cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth a thriniaeth wrth reoli symptomau'r llygaid.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau'n arbennig yr ystod amrywiol o gleifion a welwn; nid oes dau ddiwrnod yr un peth. Mae gweithio'n agos gyda chleifion a meithrin perthynas â nhw, drwy ymdrechu i ddarparu'r gofal gorau posibl iddynt yn rhoi boddhad mawr. Rwy'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol, gan werthfawrogi mewnbwn pawb fel rhan o'r broses adsefydlu i adferiad y claf.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Parhau i eirioli gyfranogiad Orthoptwyr yn rôl adsefydlu strôc, wrth barhau i ddysgu a datblygu ochr yn ochr â'm cydweithwyr boed hynny'n glinigol neu drwy addysg bellach.

Sut gyrhaeddais i yma:

Astudiais ar lefel israddedig ar gyfer BSc Orthopteg ym Mhrifysgol Lerpwl. Rwyf wedi cwblhau modiwl lefel Meistr mewn Niwro-Offthalmoleg.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n wirioneddol poeni am bobl, gan ddarparu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at iechyd a llesiant y claf. Mae angen i chi feddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol a bod yn hyblyg ac yn hyblyg yn eich ymagwedd.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Patrick Reedy
Teitl swydd: Orthoptydd Arbenigol
Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Mae orthoptwyr yn rhoi diagnosis ac yn rheoli cleifion â phroblemau symudiad y llygaid ac aliniad llygaid, yn ogystal â datblygiad gweledol plant. Felly, rydym yn gweld cleifion o bob oed yn bennaf mewn ysbytai cleifion allanol a lleoliadau cymunedol. Rydym yn gweithio'n agos gyda rhai offthalmolegwyr wrth benderfynu ar lawdriniaeth ac ymchwilio i achosion mwy cymhleth. Rydym hefyd yn gweithio ochr yn ochr ag optometryddion i roi sbectol i blant.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau'r amrywiaeth o achosion a welwn. Er y gall strabismus (troadau llygad) ymddangos yn debyg iawn, mae digon o amrywiaeth o ran eu hachos biolegol a'u hopsiynau rheoli ar gael. Rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r broses o ddynodi lle mae gan strabismus achos sinistr, a all arwain at achub golwg a hyd yn oed bywyd mewn rhai sefyllfaoedd. Rwyf hefyd yn mwynhau gweithio gyda phlant yn arbennig, mae'n gwneud y diwrnod gwaith yn llawer mwy o hwyl.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Fe wnes i wir fwynhau astudio niwrowyddoniaeth ac anatomi'r ymennydd yn fy ngradd orthoptig, ac mae mor ddiddorol gweithio gyda'r system weledol yn ddyddiol. Ar hyn o bryd, rwy'n cwblhau MSc mewn niwrowyddoniaeth foleciwlaidd ac felly hoffwn fynd i ymchwilio i niwrowyddoniaeth weledol ymhellach fel rhan o fy swydd.

Sut gyrhaeddais i yma:

Mae gennyf radd mewn ieithoedd modern ac ar ôl gweithio yn y sectorau dyngarol ac addysg roeddwn i eisiau symud yn ôl i'r DU a gweithio ym maes gwyddorau neu iechyd. Trefnais ychydig o brofiad gwaith a chanfyddais fod orthoptig yn llawer o hwyl. Cefais fy mherswadio yn bennaf oherwydd bod orthoptwyr yn arbennig o gadarnhaol am eu gyrfaoedd, felly penderfynais fynd i lawr y llwybr hwn ac astudio'r BSc ym Mhrifysgol Lerpwl.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Mae angen i chi fod â diddordeb ym mioleg y system weledol ynghyd â gallu cyfathrebu ag amrywiaeth eang o bobl. Mae gan lawer o bobl rydym ni'n eu gweld anghenion ychwanegol, efallai nad ydynt yn llafar neu â chlefyd dirywiol, ond mae angen i ni weithio allan pa mor dda y gall y bobl hyn weld ac a ydynt yn defnyddio eu llygaid gyda'i gilydd. Nid yw pawb yn cael cyfleoedd i sylweddoli a fyddent yn gallu addasu, felly byddwn yn argymell ceisio cael profiad gwaith mewn adran orthoptig neu hyd yn oed meithrinfa neu ganolfan iechyd.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Nicola Turner

Teitl swydd: Prif Orthoptydd

Lleoliad y gwaith: Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, (BIPAB).

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Fel Pennaeth Adran mae gennyf rôl glinigol ac arweinyddol.
Mae fy rôl glinigol yn cynnwys asesu, gwneud diagnosis a thrin amrywiaeth o gleifion gan weithio'n symbiotig gydag Offthalmolegwyr Ymgynghorol. Rwyf hefyd yn gweithio'n agos gydag aelodau eraill o'r tîm Offthalmoleg ehangach gan gynnwys offthalmolegwyr, optometryddion a nyrsys offthalmig. Fel rhan o'r tîm Orthoptig rwy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau Orthoptig i blant, pobl ifanc ac oedolion ar draws ardal ddaearyddol eang o fewn BIPAB.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

O safbwynt clinigol, mae pob diwrnod yn wahanol, mae'r amrywiaeth o achosion a welir a'r gallu i wneud gwahaniaeth - boed hyn yn trin plentyn â golwg gwael neu oedolyn â golwg dwbl ill dau'r un mor werthfawr.
Rwyf hefyd yn mwynhau arwain ac ysgogi fy nhîm. Rwy'n gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener, felly rwy'n gallu mwynhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Pe bai'r cwestiwn hwn wedi'i ofyn i mi fel Orthoptydd newydd gymhwyso - byddwn wedi dweud fy mod wedi eisiau dod yn Bennaeth Adran ac i weithio dramor - yr wyf wedi cyflawni'r ddau uchelgais hyn.
Fy uchelgais gyrfa bresennol yw hyrwyddo rôl Orthopteg ac annog aelodau fy nhîm i ymgymryd â rolau estynedig fel chwistrellu anfeddygol ar gyfer trin dirywiad y maciwla sy'n gysylltiedig ag oedran (AMD) ac asesu strôc.

Sut gyrhaeddais i yma:

Cwblheais ddiploma tair blynedd mewn Orthopteg sydd bellach wedi'i ddisodli gan gwrs gradd Orthoptig a gynhaliwyd mewn tair prifysgol ar draws y DU, sef Sheffield, Lerpwl a Glasgow. Ers hynny rwyf wedi cwblhau Modiwl Meistr mewn Arweinyddiaeth a Thystysgrif Lefel 5 y Sefydliad Arwain a Rheoli. Dechreuais fy ngyrfa Orthoptig yng Nghasnewydd i ddechrau, ar ôl gwneud cais llwyddiannus am seibiant cyflogaeth o ddwy flynedd, treuliais gyfnod o wyth mlynedd yn gweithio dramor yn Bermuda - er nad oeddwn yn gallu dychwelyd i Gasnewydd, cefais swydd fel Orthoptydd Arbenigol yn Llantrisant, lle bûm wedi fy lleoli am wyth mlynedd a lle dechreuais fy hyfforddiant arwain a rheoli. Dychwelais i Gasnewydd ar ôl cael swydd Orthoptig Uwch ac ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach llwyddais i gael fy rôl bresennol fel Prif Orthoptydd.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Byddai'r rôl yn bendant yn addas ar gyfer rhywun sy'n gyfathrebwr rhagorol ac sy'n mwynhau gweithio gyda phobl o bob oed. Mae'r sgil a'r gallu i weithio'n annibynnol yn ogystal fel rhan o dîm hefyd yn hanfodol.

ORTHOTYDDION

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Jo Davies

Teitl swydd: Orthotydd Arbenigol Clinigol

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ysbyty Brenhinol Gwent, Adran Podiatreg ac Orthoteg

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Dyfais a ddefnyddir yn allanol yw orthosis a ddefnyddir i ddylanwadu ar nodweddion strwythurol a swyddogaethol y system niwrogyhyrol ac ysgerbydol. Mae fy swydd yn cynnwys asesu gweithrediad rhannau o'r corff claf ac ystyried a all dyfais orthotig gynorthwyo neu wella aliniad, swyddogaeth neu boen. Rydym yn edrych ar fiomecaneg adran/rhan benodol o'r corff/ y corff cyfan i weld beth yw'r gwendid a gweithio'n unol ag amcanion y claf i gynorthwyo gweithgarwch cynnal pwysau ac i ymestyn symudedd cyhyd ag y bo modd. Yn achosion lle nad yw'r claf yn medru symud rydym yn edrych ar reolaeth crebachdod er mwyn gallu cynnal ystod o symudiadau a lleihau poen. Gall dyfais orthotig fod yn mewnwadnau ar gyfer traed gwastad symptomatig neu ddylunio esgidiau wedi'i theilwra/creffyn corff ar gyfer camaliniad neu anffurfiad sylweddol. Rydym hefyd yn darparu creffyn asgwrn cefn ar gyfer unigolion sydd â thoriadau'r asgwrn cefn yn ogystal â'r rhai sydd â scoliosis. Er bod ystod eang o ddyfeisiau orthoses ar gael oddi ar y silffoedd, nid yw y rhain yn addas i bawb, felly ein gwaith ni yw i gipio darn o'r corff, dylunio, gweithio gyda gweithgynhyrchu i greu dyfais, ei ffitio, addasu ac adolygu ei swyddogaeth yn barhaus gan newid yn ôl yr angen wrth i gyflwyniadau'r claf newid a symud ymlaen.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwyf wrth fy modd gyda'r ffaith nad oes dau ddiwrnod yr un fath, ac mae'r gwaith yn amrywio o fod mewn gwahanol glinigau yn ogystal â gwneud ymweliadau cartref a wardiau. Rwy'n cael gweithio ochr yn ochr â gwahanol broffesiynau gofal iechyd gan feithrin perthnasoedd gwaith agos. Rwyf wrth fy modd yn gweithio gyda phobl o gefndiroedd gwahanol yn ogystal â chael y cyfle i allu cael effaith gadarnhaol ar adferiad, gyflawni nodau ac ansawdd bywyd claf.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Mae gennyf ddiddordeb gwirioneddol mewn adsefydlu o gyflyrau niwrolegol a'm nod yw gweithio tuag at arbenigo yn y maes hwn. Rwyf hefyd yn eiriolwr dros ofal iechyd sy'n ystyriol o ddementia felly byddwn wrth fy modd yn cael mewnbwn yn y maes hwn hefyd. Cwblhau gradd meistr a dal ati i ddysgu a datblygu sgiliau newydd a all wella'r gwasanaeth y gallaf ei gynnig i'm cleifion.

Sut gyrhaeddais i yma:

Astudiais Brostheteg ac Orthoteg am 3 blynedd ym Mhrifysgol Salford i ennill gradd baglor mewn gwyddoniaeth. Er fy mod yn cymwys i ymarfer o fewn meysydd Prostheteg ac Orthoteg, roeddwn i'n gwybod bod fy niddordeb go iawn oedd o fewn orthoteg. Fy rôl gyntaf oedd i gwmni a gontractiwyd i'r GIG yng ngogledd orllewin Lloegr am 5 mlynedd ac yna symudais yn ôl i Gymru.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n mwynhau her, yn eangfrydig ac sy'n ymarferol ac yn weithredol. Mae gweithio ym maes orthoteg yn gofyn am sgiliau ddatrys problemau da a rhywun sy'n hoffi gweithio o fewn rôl sy'n wynebu cleifion gan feithrin perthynas â chleifion a'u teuluoedd. Rhywun sy'n hoffi dal ati i ddysgu gan fod ymchwil newydd ar gael drwy'r amser gan gynnwys cynhyrchion a dyluniadau newydd i sicrhau bod ein cleifion yn cael yr orthosis/triniaeth orau a mwyaf priodol y gallwn ei darparu.

For more information on the roles of AHPs and routes of entry, visit our website
http://ow.ly/sPiK50EzAHM

PARAFEDDYGON

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Sarah Lewis

Teitl swydd: Technegydd Meddygol Brys

Lleoliad y gwaith: Canol a Gorllewin-De Powys, Gorsaf Trefyclo

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n mwynhau fy rôl fel EMT gan weithio'n bennaf fel rhan o griw sy'n ymateb i alwadau 999 lleol. Nid oes angen mynd â phob claf i'r ysbyty, gellir darparu gofal gyda chymorth meddyg teulu fel bo'r claf yn gallu aros gartref a derbyn unrhyw driniaeth neu gymorth pellach lle bo angen. Mae gennym yr opsiwn, lle bo angen, o ofyn am gymorth gan uwch-glinigwyr fel EMERTS, timau achub mynydd, HART, uwch-barafeddygon neu'r ddesg glinigol. Gall clinigydd uwchraddio, neu israddio, unrhyw alwad yn y fan a'r lle, gan ddibynnu ar angen clinigol y claf. Rydym yn cael cyswllt ag aelodau'r teulu, gofalwyr ac asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r claf, i sicrhau'r gofal gorau i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Wrth gyrraedd yr ysbyty, trosglwyddwn y claf yn gywir i'r ysbyty gan gofnodi pob canfyddiad clinigol gan gynnwys unrhyw broblemau cymdeithasol a allai fod yn ffactor gyda'r gofal parhaus.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwyf wedi bod eisiau bod yn EMT ers yn blentyn. Rwy'n falch iawn o 'ngwaith ac yn mwynhau'n fawr. Mae pob sifft yn wahanol ac rwy'n mynd i rywle newydd o hyd. Rwy'n cael pleser mawr o helpu pobl ac yn darparu'r gofal gorau i'r claf. Dyma'r swydd orau i mi ei chael erioed

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Rwyf wedi cymhwyso'n ddiweddar fel EMT ar ôl 16 mlynedd yn y gwasanaeth ambiwlans, mewn ymddiriedolaeth arall. Treuliais amser hir yn aros am gyfle i symud ymlaen, rhywbeth y bu'n rhaid ei ohirio oherwydd ymrwymiadau teuluol. Rwyf wedi magu dau fab fel rhiant sengl. Rwyf mor falch a hapus i fod wedi dod yn EMT o'r diwedd. Bellach rwy'n awyddus i wella fy ngwybodaeth glinigol a pherffeithio fy sgiliau er mwyn bod y gorau y gallaf fod. Fy nod nawr yw bod yn rhan o gymaint â phosib o fewn WAST, gan gynnwys cynorthwyo gyda chodi arian elusennol i TASC, lles staff a'r gwasanaeth dymuniadau. Rwy'n chwilio'n barhaus am gyfle i ddatblygu ymhellach yn y gweithle.

Sut gyrhaeddais i yma:

Dechreuais gyda'r gwasanaeth cludo cleifion i wasanaeth ambiwlans Hereford a Worcester yn 2003 cyn iddo ddod yn Wasanaeth Ambiwlans y West Midlands. Roeddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Dibyniaeth Fawr, yr Haen Atgyfeirio Gofal Iechyd, ac yn ymatebwr cyntaf cymunedol yn fy ardal leol. Fy uchelgais erioed oedd bod yn EMT.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n mwynhau cyfarfod pobl newydd. Yn mwynhau her newydd. Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â phobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chymdeithasol. Yn broffesiynol ac ymfalchïo yn y gofal i'w cleifion. Yn gyfeillgar a hawddgar.

Life as an Allied Health Professional (AHP)

Name: Rob Townsend
Job title: Parafeddyg
Location of work: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (GIG), EMS - Gorsaf Ambiwlans y Rhyl / Canolog

What does my job role as an AHP involve?

Rwy'n Barafeddyg ac yn ymateb i alwadau 999 am help gan y cyhoedd naill ai mewn ambiwlans neu gerbyd ymateb cyflym (RRV). Rwy'n gweithio mewn partneriaeth â chlinigydd arall mewn ambiwlans neu ar fy mhen fy hun ar RRV. Rwyf wedi fy addysgu a'm hyfforddi i wneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth a phwysau uchel mewn amgylcheddau sy'n aml yn anghyfarwydd ac yn anodd eu rhagweld. Mae gennym ni arbenigedd mewn delio â chleifion sy'n ddifrifol wael ac sydd wedi'u hanafu gan ddefnyddio amrywiaeth o offer a meddyginiaethau tra'n cael y claf i'r ysbyty cywir ar gyfer eu triniaeth barhaus. Mae parafeddygon hefyd yn gweithio'n agos gyda thimau gofal iechyd eraill, megis: Meddygon Teulu, Nyrsys, timau Argyfwng Iechyd Meddwl a Fferyllwyr i reoli cleifion yn y gymuned neu'n agosach at eu cartref.

What do you enjoy about your job?

Rwy'n mwynhau natur newidiol ac weithiau heriol fy ngwaith. O ddelio â chleifion difrifol wael i ddelio â'r rhai sydd â chyflwr cronig sy'n gwaethygu, neu weithio gyda phobl mewn argyfwng nad ydynt yn gwybod ble i droi am y gorau. Mae'r cyfle am ddysgu parhaus yn wych gyda phob diwrnod yn "ddiwrnod ysgol".

What are your career ambitions?

Fel clinigwr, hoffwn ddysgu a datblygu'n barhaus fel y gallaf ddarparu'r gofal gorau i'r claf a dod yn Uwch Ymarferydd Parafeddygol â chymhwyster Meistr (APP). Mae ein swydd wedi dod yn fwyfwy heriol ac mae gallu darparu mynediad i wahanol lwybrau clinigol, cael sgyrsiau gyda chlinigwyr uwch a rhagnodi meddyginiaethau priodol yn gallu arwain at osgoi ysbyty yn ddiogel i'r claf.

How did you get into your role?

Roedd gen i radd a gradd Meistr mewn maes arall cyn ymuno â'r Gwasanaeth Ambiwlans lle hyfforddais yn fewnol - yn gyntaf mewn Gofal Brys, yna ar ôl dewis a chyrsiau pellach symudais i rôl Technegydd Meddygol Brys. Yna, gweithiais a hyfforddi mewn Gwasanaeth Ambiwlans arall fel myfyriwr Parafeddyg cyn cyflawni fy nghofrestriad proffesiynol fel Parafeddyg.

What kind of person does your job suit?

Yn gyntaf, mae angen rhywun sy'n gofalu'n angerddol am y cyhoedd ac sydd yn teimlo rheidrwydd i helpu'r rhai mewn angen. Yn ail, mae angen rhywun sydd â llygad craff am fanylion ac sy'n gallu gwneud penderfyniadau systematig mewn amgylcheddau sydd yn heriol ar adegau. Ar yr un pryd mae angen gwneud hyn gan fod yn ymwybodol o gynorthwyo'r claf i wella ac ystyried lle y gellid cyflymu'r adferiad hwnnw orau, boed yn feddygfa, ysbyty neu ganolfan trawma mawr.



FFISIOTHERAPYDDION

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Claire Madsen

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Gofal Iechyd

Lleoliad y gwaith: Pencadlys Ysbyty Bronllys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rydw i'n cynrychioli Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ac yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer yr holl broffesiynau hyn. Rydw i hefyd yn cyfrannu at yr agenda genedlaethol yng Nghymru.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau'r rhyngweithio gyda'r holl broffesiynau amrywiol hyn a'r gallu i godi proffil y proffesiynau hyn, yn fewnol ac yn allanol. Rwy'n hoffi her y rôl a'r amrywiaeth o waith.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Rydw i'n awyddus i gynnal y rôl hon am yr ychydig flynyddoedd nesaf er mai am flwyddyn yn unig rydw i'n dal y swydd benodol hon. Ar ôl hynny mi gaf i olwg ar y cyfleoedd sydd ar gael.

Sut gyrhaeddais i yma:

Fel Ffisiotherapydd, bues yn gweithio mewn sawl sector (GIG, preifat, addysg, trydydd sector, gofal iechyd mewn carchardai ac yn Ewrop); bûm yn ffisiotherapydd ymgynghorol ac yna'n Weithiwr Proffesiynol Arweiniol Perthynol i Iechyd. Rydw i wedi bod yn ddirprwy gyfarwyddwr clinigol ar gyfer yr holl broffesiynau iechyd gan gynnwys nyrsio a meddygaeth ac yna'n gyfarwyddwr gweithrediadau ar gyfer gofal iechyd yn y carchar. Bellach, rydw i'n dal y swydd hon fel Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Gofal Iechyd.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Byddai angen i ymgeisydd fod yn Weithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd neu'n Wyddonydd Iechyd, yn angerddol ynglŷn â'r proffesiynau hyn ac yn weithiwr amlddisgyblaethol. Rhywun sy'n mwynhau her ac amrywiaeth ac eisiau gwneud gwahaniaeth. Person sydd â chymhelliad, yn wydn ac yn mwynhau her.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Rhiannon Griffiths
Teitl swydd: Ffisiotherapydd Arbenigol Clinigol o barthed Iechyd y Pelfis
Lleoliad y gwaith: Adran Ffisiotherapi, Ysbyty Brenhinol Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Fy rôl i yw helpu cleifion sy'n dioddef o gamweithrediad llawr y pelfis i wella eu symptomau. Gall camweithrediad cyhyrau llawr y pelfis arwain at nifer o wahanol symptomau, yn amrywio o Anymataliaeth Wrinol, Prolaps Organ Pelfig, materion rheoli'r Bledren a'r Coluddyn, Anymataliaeth Ysgarthol, poen â chyfathrach rywiol a Phoen Pelfig. Rydw i hefyd yn trin menywod yn ystod y cyfnod ôl-enedigol os ydynt wedi cael esgoriadau anodd neu unrhyw anafiadau y gallent eu rhagdueddu at unrhyw un o'r cyflyrau uchod. Mae hyn yn golygu fy mod yn gweithio â nifer o wahanol gydweithwyr gan gynnwys ymgynghorwyr Wroleg, y Colon a'r Rhefr, Poen a Gynaecoleg ac arbenigwyr nyrsio clinigol mewn clinigau. Rydw i hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'm cydweithwyr Ffisiotherapi Cyhyrysgerbydol.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Helpu pobl i adennill eu hymataliaeth a theimlo'n hyderus ynghylch dychwelyd at eu hobïau neu waith heb orfod bod ag ofn unrhyw sefyllfaoedd chwithig a heb fod angen wynebu unrhyw lawdriniaeth. Dychwelyd menywod i sefyllfa lle y gallant gael cyfathrach rywiol ddiboen. Addysgu cydweithwyr a chleifion ynghylch fy rôl a'i phwysigrwydd o ran iechyd pelfig benywod a gwrywod.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Gweithio'n agosach gyda fy nghydweithwyr ymgynghorol a sefydlu llwybrau gofal cleifion sy'n caniatáu i ffisiotherapi gael ei amlygu fel opsiwn triniaeth addas a llwyddiannus o fewn cyfwng amser cynharach.

Sut gyrhaeddais i yma:

BSc mewn Ffisiotherapi yna tair blynedd fel Ffisiotherapydd Band pump cylchdro lle cefais gyfle i gysgodi ffisiotherapydd iechyd pelfig a mwynhau'r gwaith a'r cleifion. Yna mi ddes i yn Ffisiotherapydd Band chwech Cyhyrysgerbydol ac Iechyd Pelfig am bedair blynedd cyn ennill rôl Arbenigwr Clinigol yn BIPAB. Rydw i wedi cwblhau ychydig o gyrsiau hyfforddi allanol ar sail arbenigedd Ffisiotherapi Iechyd Pelfig ac yn ddiweddar rydw i wedi cwblhau Gradd Meistr.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rydw i'n un sy'n mwynhau gweithio gyda phobl ac sy'n angerddol ynghylch gweithio gyda chleifion sydd â symptomau sydd wedi'u gwarthnodi i raddau helaeth gan gymdeithas. Gofalgar ac empathig ac yn awyddus i ddysgu a datblygu eu sgiliau. Yn angerddol am wella gofal a sicrhau mai llawfeddygaeth yw'r gobaith olaf ar gyfer rheoli'r cyflyrau hyn.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Susan Young

Teitl swydd: Ffisiotherapydd

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ysbyty Ystrad Fawr, Adran Ffisiotherapi.
Adsefydlu Cardiaidd

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Ar gyfer fy rolau mewn adsefydlu cardiaidd ac ysgyfaint, rwy'n gyfrifol am ddarparu elfen gweithgarwch corfforol ac ymarfer corff y rhaglenni adsefydlu hyn i gleifion allanol, ac yn gweithio fel rhan o dîm aml-ddisgyblaeth sy'n cynnwys nyrsys, therapyddion galwedigaethol, staff ymarfer corff proffesiynol a staff cymorth gweinyddol. Rwy'n asesu cleifion ag amrywiaeth o gyflyrau'r galon a'r ysgyfaint, fel pobl sy'n adfer o lawdriniaeth ar y galon neu sy'n byw gyda chlefyd ysgyfaint hirdymor, gan gymryd unrhyw symptomau i ystyriaeth ynghyd ag effeithiau gwahanol feddyginiaethau y maen nhw'n eu cymryd, a chyflyrau iechyd eraill a allai effeithio ar iddynt fod yn gorfforol weithgar. Gallaf wedyn wneud argymhellion ar gyfer ymarfer corff a gweithgarwch corfforol diogel ac effeithiol i helpu'r claf i adfer eu hiechyd ar ôl bod yn yr ysbyty, gan hefyd annog newid ymddygiad a ffordd o fyw er mwyn atal symptomau rhag dirywio a gorfod mynd i'r ysbyty yn y dyfodol. Rwyf hefyd yn cynnal clinig ffisiotherapi resbiradol i gleifion allanol gan weithio'n annibynnol i asesu cleifion ag amrywiaeth o gyflyrau ysgyfaint cronig a rhoi cyngor ar dechnegau i glirio secretiadau o'r ysgyfaint, rheoli bod yn fyr eich gwynt, ac ar ymarfer corff a gweithgarwch corfforol. Yn ogystal â rolau clinigol rwyf hefyd yn goruchwylio myfyrwyr Ffisiotherapi ac yn eistedd ar nifer o rwydweithiau adsefydlu cardiaidd proffesiynol cenedlaethol.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Nid oes dau ddiwrnod yr un fath! Gallwch gael dau berson gyda'r un cyflwr ysgyfaint neu galon ond yn cyflwyno gyda phroblemau ac amcanion tra gwahanol. Rwy'n mwynhau datrys problemau fel rhan o dîm aml-ddisgyblaeth cefnogol. Ac rwyf wrth fy modd yn gweld pobl yn elwa o fod yn fwy hyderus yn gwneud gweithgarwch corfforol. I rai gall hyn olygu ymuno â champfa a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, i eraill gall olygu gallu byw mor annibynnol â phosib a rheoli tasgau fel ymolchi a gwisgo yn well. Drwy brosiectau ar gyfer y rhwydweithiau proffesiynol yr wyf yn rhan ohonynt, rwy'n mwynhau gweithio'n agos â chlinigwyr eraill o wahanol gefndiroedd ar draws y DU, yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Fy nyhead yw gweithio tuag at fod yn glinigydd arweiniol gan adnabod a sefydlu llwybrau adsefydlu ymarfer corff newydd yn y gymuned ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau iechyd cymhleth nad oes darpariaeth ar eu cyfer ar hyn o bryd, er enghraifft pobl yn aros am drawsblaniad iau, rhai sy'n aros am lawdriniaeth ar gyfer problemau fasgwlaidd sylweddol fel ymlediad aortaidd yr abdomen, a chleifion wedi eu rhyddhau i fynd adref ar ôl bod mewn gofal dwys. Gyda chymorth gan fy nghyflogwr rwy'n astudio ar gyfer gradd Meistr mewn Uwch-Ymarfer ar hyn o bryd sy'n rhoi cyfle i mi ystyried sut y gallaf ddatblygu fy ymarfer ymhellach a darparu'r canlyniadau gorau i gleifion.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Susan Young

Teitl swydd: Ffisiotherapydd

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ysbyty Ystrad Fawr, Adran Ffisiotherapi.
Adsefydlu Cardiaidd

Sut gyrhaeddais i yma:

Fy hyfforddiant Ffisiotherapi cyn-gofrestru oedd gradd Meistr dwy flynedd. Cyn hynny roeddwn wedi cwblhau gradd Baglor israddedig yn y gwyddorau biolegol. Ar ôl gorffen fy ngradd Ffisiotherapi, dechreuais weithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel ffisiotherapydd Band pump gan dreulio dwy flynedd yn ennill profiad mewn nifer o wahanol leoliadau gofal iechyd yn cyfrannu mewnbwn Ffisiotherapi, er enghraifft ar wardiau adsefydlu ar ôl strôc, gofal dwys ac ar gyfer cleifion allanol gyda chyflyrau cyhyrysgerbydol. Ar ôl ennill y profiad hwn, symudais at rôl Band chwech gan ennill gwybodaeth a sgiliau arbenigol mewn nifer o leoliadau cardio-resbiradol yn cynnwys gofal critigol ac adsefydlu cardiaidd, cyn symud ymlaen wedyn i'r rôl arbenigol yr wyf yn ei gwneud ar hyn o bryd. Er i mi arbenigo yn y maes cardio-resbiradol, yn ddyddiol rwy'n dal i ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau a enillais o weithio mewn meysydd Ffisiotherapi eraill, gan addasu'r ymarfer corff ar gyfer pobl gyda phroblemau cymalau neu nam balans, er enghraifft.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n mwynhau gweithio mewn tîm clos gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o wahanol gefndiroedd. Rhaid teimlo'n gryf am fanteision byw bywyd mwy corfforol egnïol er mwyn gallu cyfleu hyn yn effeithiol i gleifion. Yn aml iawn mae ofn ymarfer corff a gweithgarwch corfforol ar y cleifion yr wyf yn gweithio gyda nhw ac mae rhan fawr o'm gwaith yn cynnwys tawelu meddyliau ac addysgu pobl am fanteision iechyd ymarfer corff. Rhaid bod â sgiliau gweithio mewn tîm a chyfathrebu da ynghyd â gallu addasu a datrys problemau fel bod cleifion ag amrywiaeth o gyflwyniadau a heriau'n gallu elwa o weithgarwch corfforol.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Rhodri Parfitt

Teitl swydd: Ffisiotherapydd Clinigol Arbenigol

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Ysbyty'r Trallwng

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Asesu a rheoli cleifion gyda chyflyrau cymalau a chyhyrau. Derbyniwn gleifion wedi eu hatgyfeirio gan feddygon teulu a'r Gwasanaeth Ffisiotherapi lleol gan roi mewnbwn ar gyfer rhai a allai fod angen ymchwiliadau pellach fel pelydr-x ac MRI, neu sydd efallai angen eu hatgyfeirio at ymgynghorydd orthopedig.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Cyswllt gyda chleifion, penderfyniadau clinigol a rhesymu clinigol, cyfrannu at dîm effeithiol.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Atgyfnerthu fy swydd bresennol a chyfrannu at ddatblygiad y CMATS (Gwasanaeth Asesu a Thriniaeth Glinigol ar gyfer Cyflyrau Cyhyrysgerbydol) ac integreiddio â swyddi Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf mewn meddygfeydd.

Sut gyrhaeddais i yma:

BSc Bioleg, MSc Ffisiotherapi.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywfaint o brofiad yn gweithio mewn ffisiotherapi a rhywun a hoffai ehangu eu sgiliau a'u gwybodaeth glinigol.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Debbie Davies

Teitl swydd: Pennaeth Gwasanaethau Ffisiotherapi

Lleoliad y gwaith: Ffisiotherapi, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Fel Pennaeth Gwasanaethau Ffisiotherapi rwy'n arwain a rheoli dros 270 o staff sy'n darparu ffisiotherapi i bobl Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r timau'n darparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd o bob oed. Mae'r timau ffisiotherapyddion yn helpu pobl y mae anafiadau, salwch neu anabledd wedi effeithio arnynt, drwy symud ac ymarfer corff, therapi llaw, addysg a chyngor. Maen nhw'n cynnal iechyd pobl o bob oed gan helpu cleifion i reoli poen ac atal afiechyd. Mae ffisiotherapi'n helpu i annog datblygiad a hwyluso adferiad fel bod pobl yn gallu parhau i weithio ac aros yn annibynnol am gyn hired â phosib. Mae ffisiotherapyddion yn gweithio mewn timau gyda gweithwyr iechyd eraill mewn gwahanol leoliadau fel yr ysbyty a'r cartref, ysgol, yn y gymuned a gyda phartneriaid hamdden, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n eithriadol falch o staff y gwasanaeth ffisiotherapi. Pawb o'r timau gweinyddol sy'n cydlynu dros 75,000 o achosion atgyfeirio, i'r ffisiotherapyddion cofrestredig eu hunain a'r gweithlu cysylltiol cynyddol. Rwyf wrth fy modd ag amrywiaeth y gwasanaethau a'r bobl y gallwn eu helpu; o rai mewn gofal critigol i rai ag anafiadau chwaraeon a'r mwyaf bregus yn ein cymunedau fel plant neu bobl oedrannus eiddil.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Dangos gwerth ffisiotherapi, yn enwedig lle gweithiwn mewn timau i wneud gwahaniaeth er gwell i fywyd person neu deulu.

Sut gyrhaeddais i yma:

Lefel O a Lefel A. Diploma mewn Ffisiotherapi (dangos fy oed). Gradd Meistr mewn arweinyddiaeth (nes ymlaen yn fy ngyrfa).

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun ymrwymedig i'r GIG sy'n falch o wneud gwahaniaeth. Rhywun sy'n teimlo'n gryf am les a helpu pobl i fod mor annibynnol â phosib. Rhywun sydd wrth eu bodd yn datblygu staff a mwynhau datrys problemau mewn timau. Rhywun gwydn sy'n fodlon gweithio'n galed yn gyson a goresgyn ambell i rwystr ar hyd y ffordd.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Amaani McGee

Teitl swydd: Ffisiotherapydd

Lleoliad y gwaith: Caerdydd a'r Fro, ECAS Ysbyty Dewi Sant

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n gweithio mewn clinig gyda'r prif nod o atal pobl oedrannus rhag cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae ein cleifion yn tueddu i fod yn eithaf cymhleth ac felly i fod yn y clinig am y bore cyfan a gweld amrywiol weithwyr proffesiynol (e.e. nyrsys, meddygon, therapyddion galwedigaethol) gan gynnwys ffisiotherapyddion. Fy mhrif rôl yw helpu pobl gyda symudedd, cryfder a balans, ymhlith pethau eraill, a gwella eu gweithrediad corfforol annibynnol. I wneud hyn rwy'n darparu cyngor, ymarfer corff, cyfarpar ayyb. Fel gwasanaeth tueddwn i ddarparu ymyriadau tymor byr ac atgyfeirio / cyfeirio pobl ymlaen at wasanaethau eraill (er enghraifft fel cleifion allanol, ysbyty dydd, yn y gymuned) gan ddibynnu ar anghenion y claf. Er mwyn bod mor holistig â phosib, rydym yn cynnal cyswllt agos â gweithwyr proffesiynol eraill i gael y darlun llawn o'n cleifion er mwyn eu cynorthwyo gorau gallwn.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau dod i adnabod fy nghleifion, creu cytgord gyda nhw a'u helpu dros gyfnod anodd yn eu bywydau. Mae llawer o'n cleifion yn tueddu i ddioddef o orbryderu ac mae'n deimlad braf iawn gallu eu helpu i reoli hyn ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty. Mae fy ngwaith yn ymarferol iawn ac rwy'n dod i adnabod fy nghleifion yn dda a chlywed eu hanesion.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Rwy'n eithaf newydd yn y swydd a bwriadaf gylchdroi mewn meysydd gwaith eraill cyn symud ymlaen. Fy mhrif nod yw gweithio gyda phobl mewn angen a'u helpu / cefnogi o fewn cwmpas fy ymarfer.

Sut gyrhaeddais i yma:

Mi wnes i radd Ffisiotherapi ar ôl cymryd blwyddyn i ffwrdd ar ôl ysgol.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n hoffi bod yn ymarferol, sy'n gallu datrys problemau. Sy'n dda am gymell eraill. Sy'n holistig yn eu hagwedd. Gyda sgiliau cyfathrebu da. Wrth eu boddau'n gweithio'n agos gyda phobl.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Rhiannon Anthony
Teitl swydd: Ffisiotherapydd Arbenigol – Tîm Iechyd a Lles Cymunedol
Lleoliad y gwaith: Clwstwr Cwm Cynon – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n ffisiotherapydd gyda'r Tîm Iechyd a Lles Cymunedol. Mae'r tîm yn cynnwys nifer o ddisgyblaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i helpu ein cleifion i fyw mor annibynnol â phosib a byw bywyd o ansawdd da. Gweithiwn gyda'n gilydd i sicrhau bod ein cleifion mor annibynnol â phosib, mor ddiogel â phosib a bod eu hamgylchedd yn addas a diogel iddynt.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau gweithio'n agos â gweithwyr proffesiynol eraill a dysgu am eu gwaith a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd a dysgu oddi wrth ein gilydd. Rwyf hefyd yn mwynhau'r amser gwerthfawr gyda'n cleifion a gweld y llwyddiant a gawsom gyda'n gilydd.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Rwyf eisiau parhau i ddysgu a datblygu gyda fy nghydweithwyr MDT i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau glas bob amser i roi'r gofal gorau i'n cleifion.

Sut gyrhaeddais i yma:

I ddechrau, methais â chael lle i astudio ffisiotherapi ar ôl gadael yr ysgol oherwydd i mi gael meningitis a gorfod mynd i'r ysbyty cyn fy Lefel A. Dewisais lwybr gwahanol ac astudio gwyddor ymarfer corff gyda Chwaraeon a Hyfforddiant, a roddodd sylfaen gwych i mi o ran deall anatomi a ffisioleg a sylfaen hefyd mewn rheoli cyflyrau hirdymor. Mi wnes i ymgeisio wedyn i gwblhau cwrs PT carlam gan astudio ym Mhrifysgol East Anglia ac ennill MSc (cyn-gofrestru) mewn Ffisiotherapi.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rwy'n teimlo'n gryf am adsefydlu gyda ffocws ar y genhedlaeth hŷn a rhai gyda phroblemau iechyd hirdymor. Byddai'r swydd yn addas i rywun sy'n gallu gweithio dan bwysau i ddatrys problemau er mwyn cadw pobl yn ddiogel mewn gwahanol amgylcheddau.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Joanna Phillips
Teitl swydd: Ffisiotherapydd – Gwasanaeth Dementia sy'n Taro Pobl Iau
Lleoliad y gwaith: Uned Cariad, Ysbyty'r Bari, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Mae ffisiotherapi'n chwarae rhan hanfodol mewn hybu a chynnal lefel iach o ymarfer corff i bobl gyda dementia. Rydym yn gwneud hyn mewn ffyrdd anghonfensiynol yn aml, yn ôl dewisiadau'r cleifion - chwarae gemau, miwsig i ysgogi, ac yn y blaen. Mae cynnal symudedd pobl yn ddiogel am gyn hired â phosib wrth i'r salwch waethygu hefyd yn rhan bwysig o'n rôl. Rydym hefyd yn chwarae rôl hollbwysig mewn gofal diwedd bywyd drwy reoli eisteddiad, gosodiad a chrebachu poenus ein cleifion. Gweithiwn fel rhan o dîm aml-ddisgyblaeth i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu hateb yn y ffordd fwyaf priodol.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Cyswllt wyneb yn wyneb â chleifion a'u teuluoedd. Defnyddio fy sgiliau i sicrhau'r canlyniad gorau i'r unigolyn, a gweithio fel rhan o dîm.

Sut gyrhaeddais i yma:

Ar ôl cael 13 TGAU, mi wnes Lefel A mewn Bioleg, Seicoleg a Chymdeithaseg. Enillais le yn Ysgol Ffisiotherapi Caerdydd ac ennill gradd BSc 2:1 (Anrhydedd) mewn Ffisiotherapi. Ar ôl cwblhau fy swyddi cylchdro iau, cefais swydd statig ar y wardiau meddygol cyn symud i dîm cymunedol am flynyddoedd. Yna symudais i Iechyd Meddwl 20 mlynedd ar ôl dechrau fy ngyrfa.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n mwynhau her. Sy'n gallu cyfathrebu'n dda. Yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm.

PODIATRYDDION

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Angela Jones

Teitl swydd: Podiatrydd

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Podiatreg, Ysbyty Brenhinol Caerdydd

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rydw i'n gweithio gyda chleifion sydd â chlwyfau traed cymhleth a phoen traed yn gysylltiedig â phroblemau cymalau, cyhyrau a gewynnau, i ddarparu gofal clwyfau a mewnwadnau (orthoteg). Mae popeth a wnawn yn golygu gweithio gyda'r cleifion i feistroli eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain i'r eithaf. Mae hyn yn cynnwys traddodi addysg a meithrin hyder cleifion i hunanofal. Rydym yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill gan gynnwys y timau orthopedig a fasgwlaidd i gyflawni hyn. Mae cyfleoedd yn y rôl i ymgymryd â dysgu pellach mewn amrywiaeth o bynciau gofal ac arweinyddiaeth uwch, i arwain o ran datblygiad gwasanaethau, ymgymryd ag ymchwil a gweithio gyda phartneriaid allanol fel Diabetes UK a Chomisiwn Bevan.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Yr amrywiaeth, gan gynnwys y gwaith clinigol - rydw i'n arwain o ran arloesedd digidol ac atal clefydau yn fy rôl. Rydw i wrth fy modd gyda'r berthynas rydym yn ei meithrin gyda'n cleifion, gan weithio gyda nhw i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, y canlyniadau yr ydym yn eu cyflawni gyda nhw a'r effaith yr ydym yn ei chael ar eu bywydau.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Gallu dylanwadu ar ein dulliau o weithio gyda chleifion sy'n byw gyda diabetes yng Nghymru, gan gynnwys y rhai mewn cymunedau ethnig. Adeiladu ar wybodaeth a hyder cleifion i hunanofal, datblygu perthynas ystyrlon â hwy i sicrhau bod pobl yn cydnabod pan fo angen cymorth podiatreg proffesiynol arnynt a'i ganlyn yn gyflym fel nad yw eu cyflyrau'n dirywio ac yn datblygu'n ddifrifol.

Sut gyrhaeddais i yma:

Fel myfyriwr aeddfed (37) heb unrhyw gymwysterau Safon Uwch, cwblheais gwrs blwyddyn Mynediad i Wyddor Bywyd, yna cwrs gradd tair blynedd. Ers hynny rydw i wedi cwblhau cyrsiau arweinyddiaeth gan gynnwys prosiectau hyrwyddwyr clinigol Comisiwn Bevan a Diabetes UK. Ar hyn o bryd rydw i'n dilyn gradd Meistr Ymarferydd Uwch.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Unrhyw un sydd ag angerdd ynglŷn â phobl. Y peth pwysicaf yw'r awydd i annog pobl i gyflawni'r canlyniadau gorau un drostyn nhw eu hunain. Mae Academia ar gael i'r rhai sydd â'u bryd arno ond mae dysgu ymarferol yr un mor bwysig.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Katie Evans-Bundy
Teitl swydd: Podiatrydd Clinigol Arbenigol (Diabetes / Fasgwlaidd)
Lleoliad y gwaith: Yr Adran Bodiatreg, Ysbyty'r Priordy, Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n gwneud asesiadau a rhoi diagnosis o broblemau coesau a thraed. Rwy'n asesu cylchrediad cleifion a darparu gofal arbenigol i gleifion cymhleth gyda briwiau a Chlefyd Fasgwlaidd Ymylol. Yn fy rôl arbenigol rwy'n gweithio ochr yn ochr ag ymgynghorwyr fasgwlaidd, ymgynghorwyr diabetes a llawfeddygon trawma ac orthopedig i ddarparu gofal MDT arbenigol i gleifion. Rwyf hefyd yn Arweinydd y Tîm Risg Uchel ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n gweithio'n galed i roi'r gofal gorau posib i gleifion. Rwy'n mwynhau creu cytgord â chleifion a gwrando ar eu problemau / anghenion. Mae'n rhoi mwynhad mawr fy mod yn gallu rhoi diagnosis a chyfeirio cleifion ymlaen pan fo angen i dderbyn triniaeth yn brydlon.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Yn ddiweddar rwyf wedi dod yn Arweinydd ar y Tîm Risg Uchel. Rwy'n mwynhau'r rôl er ei bod yn heriol ar adegau. Rwy'n teimlo'n gryf am wella'r gwasanaeth a byddwn yn hoffi parhau i wneud hynny ochr yn ochr â'r Tîm Fasgwlaidd.

Sut gyrhaeddais i yma:

Enillais radd mewn Podiatreg o UWIC (Prifysgol Met Caerdydd erbyn hyn) yn 2009. Rwyf wedi cwblhau nifer o gyrsiau ar friwiau, traed diabetig, ac yn y blaen. Y llynedd llwyddais i gwblhau tystysgrif ôl-radd, gyda rhagoriaeth, mewn Rhagnodi Anfeddygol o Brifysgol Abertawe, fel y gallaf ragnodi'n ddiogel pan fo angen. Ar hyn o bryd rwy'n astudio ar gyfer tystysgrif ôl-radd mewn Arweinyddiaeth Gofal Iechyd ym Mhrifysgol Abertawe.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Mae'n gofyn cael sgiliau pobl da. Mae gallu siarad â phobl o bob cefndir yn hanfodol ar gyfer y swydd hon. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir diagnosis priodol.

SEICOLEGWYR SY'N YMARFERWYR

Life as an Allied Health Professional (AHP)

Enw: Daryl Harris
Teitl swydd: Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol
Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaeth Niwroadsefydlu Cymunedol, Canolfan Llesiant Heol y Parc, Pont-y-pŵl, Gwent

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Mae'r grŵp bach o seicolegwyr a chynorthwywyr seicolegol sy'n gweithio o fewn y Gwasanaeth Niwroadsefydlu Cymunedol yn cynorthwyo nifer o dimau adsefydlu amlddisgyblaethol. Ffocws ein gwaith ar hyn o bryd yw hwyluso adferiad a lles ar ôl strôc ac anaf i'r ymennydd. Rydym hefyd yn datblygu llwybr adferiad newydd ar gyfer pobl sy'n dioddef o anhwylder ymosodiad anepileptig. Rhan o'n gwaith yw darparu therapi ac asesiadau seicolegol uniongyrchol. Lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol, ein nod yw galluogi pobl sy'n agos at oroeswyr i fynd i'r afael â risgiau a llesiant. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n cydweithwyr i gynorthwyo eu gwaith o hyrwyddo llesiant seicolegol.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n hoffi cymaint o bethau am fy swydd. Rwy'n teimlo'n hynod ffodus i ddysgu oddi wrth oroeswyr strôc ac anaf i'r ymennydd, a chyda nhw, am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd a sut y gellir cyflawni'r pethau hyn er gwaethaf adfyd a her. Mae'n rhoi cymaint o foddhad gweithio ochr yn ochr â phobl, eu teuluoedd a'u cymunedau, a chydweithwyr i ddod o hyd i ffyrdd i oresgyn yr heriau hyn ar y cyd.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Fy mhrif uchelgais gyrfaol yw dysgu parhaus. Rwyf am gyfrannu at dîm a gwasanaeth sy'n symud ymlaen yn gyson a chanfod ffyrdd newydd ac arloesol i helpu cymaint o bobl â phosibl i fyw'n dda. Rwyf am wneud hyn wrth hwyluso eu hymreolaeth a'u rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

Sut gyrhaeddais i yma:

Cyflawnais fy ngradd israddedig mewn seicoleg ym Mhrifysgol Caerwysg. Cefais sioc braidd pan ofynnwyd i mi aros ymlaen a chwblhau PhD mewn niwroseicoleg wybyddol. Darparodd hyn y sbardun i mi fynd ymlaen a llwyddo i gael doethuriaeth mewn Seicoleg Glinigol ym Mhrifysgol Surrey.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rwy'n meddwl bod yn rhaid i chi hoffi pobl a chydnabod eu gallu i ddatrys eu problemau eu hunain. Mae'n bwysig bod yn awyddus i helpu pobl, ond mae'n bwysicach bod yn awyddus i'w galluogi i gyflawni eu potensial eu hunain – mewn geiriau eraill, rhaid i chi fod â'r gallu i weld arbenigedd pobl eraill yn hytrach na dymuno arddangos eich arbenigedd eich hun.

For more information on the roles of AHPs and routes of entry, visit our website
http://ow.ly/sPiK50EzAHM



PROSTHETYDDION

Life as an Allied Health Professional (AHP)

Name: Katy McGavin

Job title: Prosthetydd

Location of work: Canolfan Aelodau Artiffisial a Chyfarpar, Ysbyty Rookwood, BIP Caerdydd a'r Fro

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol agos sy'n ymwneud ag adsefydlu pobl sydd wedi cael trychiad neu sydd wedi'u geni â diffyg aelod. Fy rôl fel prosthetydd yw asesu anghenion pob claf, dal siâp rhan o'r corff sy'n weddill a rhagnodi prosthesis (aelod artiffisial) a fydd yn cymryd lle rhan o'r corff sydd ar goll ac yn bwysicaf oll yn diwallu anghenion yr unigolyn. Y ffordd fwyaf cyffredin o ddal siâp rhan o'r corff sy'n weddill yw defnyddio mowld Plastr Paris, y mae'n rhaid i ni wedyn ei siapio i ganiatáu bod rhan y 'soced' o'r prosthesis gael ei siapio'n union i'r rhan sy'n weddill i wneud yn siŵr eu bod yn gyfforddus i'r claf. Unwaith y bydd y prosthesis wedi'i gynhyrchu gan ein technegwyr prosthetig, ein rôl ni yw gosod a sefydlu'r prosthesis i roi'r swyddogaeth orau bosibl. Yna mae'n rhaid i ni gynnal y prosthesis gan wneud newidiadau ac addasiadau yn ôl yr angen dros oes yr unigolyn.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Y peth rwy'n ei fwynhau fwyaf am fy swydd yw ein bod yn dîm agos sy'n gweithio gyda grŵp cymharol fach o gleifion ac rydym i gyd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau. Mae unrhyw un sydd wedi colli aelod o'r corff yn colli aelod o'r corff am oes, ac felly rydyn ni'n gweld pob person yn rheolaidd ac o ganlyniad, yn dod i'w hadnabod nhw a'u teuluoedd yn dda iawn. Y peth arall rydw i'n ei hoffi yw bod pob person yn wahanol felly does dim dau ddiwrnod yr un peth.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Rwyf wedi bod yn gwneud y swydd hon ers 15 mlynedd bellach ac rwy'n teimlo fy mod yn dal i ddysgu bob dydd. Fy mhrif uchelgais yw bod y prosthetydd gorau y gallaf fod a gwn y bod hwn angen profiad. Efallai y byddaf yn ystyried gwneud gradd meistr ar ryw adeg i ddatblygu fy nysgu, ond nid wyf mor siŵr am ymgymryd â rôl rheoli oherwydd gweithio gyda chleifion yr wyf yn ei fwynhau fwyaf.

Sut gyrhaeddais i yma:

Penderfynais fy mod eisiau bod yn weithiwr proffesiynol perthynol i iechyd ac yna edrychais ar fy opsiynau. Fe wyddwn i am y cwrs yn barod a phan edrychais i mewn iddo, penderfynais ei fod yn berffaith i mi. Astudiais BSc Anrh 4 blynedd mewn Prostheteg ac Orthoteg ym Mhrifysgol Strathclyde yng Nglasgow, ac fel Albanwr, roedd y cwrs hwn yn fy siwtio i, oherwydd ar y pryd yr unig opsiwn arall yn y DU fyddai astudio'r cwrs ym Mhrifysgol Salford. Roedd cael y cymhwyster hwn yn fy ngalluogi i weithio naill ai fel prosthetydd neu orthotydd, ac ar ôl gael profi bach o'r ddau, dewisais weithio o fewn prostheteg yn unig.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Yn gyntaf ac yn bennaf, rhywun sy'n hoffi pobl, sy'n amyneddgar ac sy'n wrandäwr da. Y peth arall y mae angen i chi fod yn dda yn ei wneud yw datrys problemau. Ar wahân i hynny mae'r swydd hon yn gymysgedd o greadigrwydd ynghyd â'r agwedd dechnegol o ddeall biomecaneg a swyddogaethau'r gwahanol brostheteg. Rwy'n dweud fy mod i'n Siôn-pob-swydd oherwydd un funud rydych chi'n cymryd mowldiau plastr a'u siapio a'r funud nesaf rwy'n gorwedd ar y llawr gyda sbaner yn fy llaw yn addasu lleoliad troed brosthetig.

For more information on the roles of AHPs and routes of entry, visit our website
http://ow.ly/sPiK50EzAHM

THERAPYDDION IAITH A LLEFERYDD

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Charlotte Hancox

Teitl swydd: Therapydd Iaith a Lleferydd

Lleoliad y gwaith: Ar hyn o bryd rydw i'n fyfyriwr, sy'n graddio ym mis Gorffennaf.

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Cefnogi cleifion i allu cyfleu eu hanghenion, eu meddyliau, eu dymuniadau. Gall hyn fod drwy ddefnyddio adnoddau ychwanegol e.e. iPad, papur a beiro, bwrdd yr wyddor, neu ymroi i therapi. Rydw i'n helpu i reoli anawsterau llyncu drwy weithredu dietau/hylifau addasedig neu drwy gyfrwng therapi. Rydw i'n gweithio gydag aelodau eraill o'r tîm MDT i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer cleifion.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rydw i'n mwynhau bod yng ngŵydd gwahanol fathau o bobl bob dydd, helpu pobl i ganfod eu lleisiau a theimlo'n hyderus wrth gyfathrebu ag eraill, a bod yn rhan o broses adsefydlu cleifion - a bod yn dyst i ddatblygiad pobl a chael dathlu hyn hefo nhw.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Fy nod yw dod yn therapydd iaith a lleferydd dysffagia cwbl gymwys sy'n gweithio ar y wardiau meddygol mewn ysbyty.

Sut gyrhaeddais i yma:

Cwblheais f'arholiadau Safon Uwch yn yr Ysgol ac mi ydw i bron â chwblhau fy ngradd mewn Therapi Iaith a Lleferydd yn y Brifysgol. Drwy fy nghwrs prifysgol rydw i wedi cael cyfle i ymroi i sawl math o leoliad yn ogystal â chwblhau gwaith academaidd.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Person sydd â diddordeb mewn gwaith o fewn y GIG.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Rosey Meiring

Teitl swydd: Therapydd Iaith a Lleferydd Arweiniol Dementia
Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Mae therapyddion iaith a lleferydd yn gweithio gydag ystod eang o anhwylderau cyfathrebu a llyncu, ar hyd y rhychwant oed - o fabanod i oedolion hŷn. Mae fy rôl yn ymwneud yn benodol â phobl sy'n byw gyda dementia. Rydw i'n gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys seicoleg glinigol, therapi galwedigaethol, deieteg a fferylliaeth. Ein cylch gwaith yw gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda dementia ynghyd â'u gofalwyr, drwy ddarparu hyfforddiant a chyngor arbenigol. Mae pobl â dementia yn aml yn cael trafferth cyfleu eu hanghenion mewn ffyrdd confensiynol, felly ein rôl ni yw ceisio helpu i weithio allan beth mae'r person hwnnw'n ei brofi ac yn ceisio'i gyfathrebu, ac yna ceisio helpu i ddiwallu'r angen hwnnw, fel bod y person yn llai gofidus. Gallai hyn olygu ymweld â'r unigolyn, a/neu siarad â'r rhai sy'n gofalu amdanynt a'u cefnogi.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rydw i'n mwynhau'r teimlad o allu cyfrannu at wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl a hefyd cael y fraint o weithio, gan mwyaf, o fewn un maes arbenigol ac ymestyn fy ngwybodaeth a'm sgiliau. Rydw i wastad wedi bod wrth fy modd yn gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol ac ychwanegu at fy ngwybodaeth yn sgil hynny. Wrth i ni weithio'n agos gyda'n gilydd, down i sylweddoli bod ein gwybodaeth a'n sgiliau'n ehangu ac yn gorgyffwrdd, a down i ddeall fwyfwy yr hyn mae'r naill a'r llall yn ei geisio.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Gan fy mod yn rhan o wasanaeth cymharol newydd, rydw i'n awyddus i sefydlu fy rôl, a rôl ein tîm hefyd, ym maes gofal dementia yng Nghymru. Hoffwn gymryd rhan neu arwain prosiectau ymchwil o fewn dementia a pharhau i hyrwyddo rôl therapi iaith a lleferydd mewn gofal dementia.

Sut gyrhaeddais i yma:

Fe wnes i gwblhau BSc (Anrh) mewn Therapi Iaith a Lleferydd dros ugain mlynedd yn ôl. Ers hynny rydw i wedi gweithio mewn amrywiaeth o rolau clinigol, yn bennaf gyda phobl sy'n byw gydag anhwylderau niwrolegol (strôc, anafiadau trawmatig i'r ymennydd, MND, Clefyd Parkinson). Mi fues i'n gweithio hefyd mewn Addysg Uwch fel darlithydd am naw mlynedd ac fe allais i gwblhau MSc mewn Niwrowyddoniaeth, Iaith a Chyfathrebu.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Mae therapi iaith a lleferydd yn rôl sy'n dwyn gwybodaeth a sgiliau o feysydd gwyddoniaeth, iaith a seicoleg, ymhlith pynciau eraill, felly mae'n addas ar gyfer pobl ag ystod eang o ddiddordebau. I fod yn therapydd iaith a lleferydd mae angen i chi fod yn ofalgar, â ffocws ar bobl ac yn ymddiddori yng ngwerth cyfathrebu mewn bywyd bob dydd.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Hayley Davies

Teitl swydd: Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ysbyty Ystrad Fawr a Chanolfan Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Cymoedd, Tredegar (Tîm Adnoddau Cymunedol Blaenau Gwent)

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Cefnogi oedolion ag amrywiaeth o anawsterau cyfathrebu a llyncu dros amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ysbytai, gwasanaethau cleifion allanol ac yn y gymuned ym Mlaenau Gwent (cartrefi nyrsio/preswyl ac yn nhai pobl). Rydw i'n gweithio gydag unigolion sydd ag amrediad o gyflyrau iechyd gan gynnwys dementia, strôc, clefyd niwronau motor a chanser y pen a'r gwddf. Mae cyfran helaeth o'm rôl yn cynnwys gweithio mewn tîm. O ran elfen gymunedol fy rôl, rydw i'n gweithio ochr yn ochr â llawer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill fel rhan o dîm amlddisgyblaethol sy'n anelu at wella a hyrwyddo annibyniaeth pobl adref. Gall hyn gynnwys adsefydlu lle y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod unigolion yn gallu cyfathrebu ac yfed a bwyta mor ddiogel â phosibl, gyda'r nod o leihau derbyniadau diangen mewn ysbytai. Rydw i hefyd yn darparu nifer sylweddol o becynnau hyfforddiant ac addysg arbenigol i ofalwyr, asiantaethau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â rôl therapi iaith a lleferydd, anawsterau llyncu a chyfathrebu ac egluro pa fodd orau i gefnogi unigolion sydd â'r anawsterau hyn.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rydw i wrth fy modd gydag amrywiaeth y rôl, yn gweithio gydag amryw o bobl a datrys problemau fel tîm i ganfod atebion i sefyllfaoedd clinigol cymhleth. Rydw i'n aml yn gweithio gydag unigolion sydd â chyflyrau iechyd lluosog ac anawsterau corfforol a gwybyddol sylweddol yn eu sgil. Mae'n rhoi boddhad eithriadol gweithio gyda'r unigolion hyn a'u gofalwyr i hyrwyddo eu potensial cyfathrebol i'r eithaf a sicrhau eu bod yn gallu yfed a bwyta mor ddiogel â phosibl.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Fy nod yw datblygu'r gwasanaeth therapi iaith a lleferydd ym mro Blaenau Gwent. Mae gen i gynlluniau i ddarparu hyfforddiant pellach ar gyfer cartrefi nyrsio a phreswyl yn yr ardal a gweithio gydag asiantaethau gwirfoddol i ddatblygu gwasanaethau cymorth cyfathrebu i unigolion ag anawsterau cyfathrebu. Yn bersonol, fy nod yw ymgorffori ymchwil academaidd yn fy ymarfer gyda dyheadau i ddod yn Therapydd Iaith a Lleferydd Academaidd Clinigol.

Sut gyrhaeddais i yma:

Mi wnes i gwblhau gradd israddedig mewn Iaith Saesneg a Chyfathrebu (BA) ac yna gwirfoddoli gydag elusen y Gymdeithas Strôc ac mewn uned iaith mewn ysgol gynradd brif ffrwd. Yna, mi fues i'n gweithio fel cynorthwyydd therapi iaith a lleferydd am sawl blwyddyn cyn ymgymryd â'r MSc mewn Therapi Iaith a Lleferydd. Mae dau lwybr er mwyn cymhwyso i ymarfer fel therapydd iaith a lleferydd - gallwch ymgymryd â'r cyrsiau BSc Therapi Iaith a Lleferydd israddedig (cyrsiau tair-pedair blynedd) neu'r cyrsiau Therapi Iaith a Lleferydd MSc/PGDip (cyrsiau dwy flynedd) ar ôl cwblhau gradd israddedig berthnasol fel seicoleg, ieithyddiaeth neu ieithoedd.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n mwynhau gweithio gydag ystod eang o bobl mewn gwahanol leoliadau, sy'n hyblyg, â sgiliau cyfathrebu rhagorol, sy'n mwynhau datrys problemau a helpu eraill.

For more information on the roles of AHPs and routes of entry, visit our website
http://ow.ly/sPiK50EzAHM

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Sali Curtis

Teitl swydd: Rheolwr Proffesiynol yn y Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd Aciwt i Oedolion.

Lleoliad y gwaith: Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd Aciwt i Oedolion, Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n gyfrifol am reoli'r holl wasanaethau cleifion mewnol i oedolion, gan gynnwys y wardiau meddygol cyffredinol, gofal critigol a'r gwasanaethau strôc aciwt ac adsefydlu. Cynigiwn wasanaeth cleifion mewnol i unrhyw oedolyn ag anawsterau cyfathrebu neu lyncu aciwt. Cynigiwn hefyd wasanaethau asesu arbenigol, gan gynnwys fflwrosgopi fideo (pelydr-x llyncu) neu FEES (profion endosgopi llyncu) i helpu i roi diagnosis gwell ac adsefydlu anawsterau llyncu. Mae gennym dri safle Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, h.y. Ysbytai'r Tywysog Siarl, Tywysoges Cymru a Brenhinol Morgannwg. Mae gennym hefyd safleoedd ysbyty cymunedol llai'n cynnwys Ysbyty Cwm Rhondda, Ysbyty Cwm Cynon, Ysbyty Seren ac Ysbyty Cyffredinol Maesteg.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwyf wrth fy modd yn cefnogi ac ysbrydoli fy nhîm aciwt i ddarparu'r gofal gorau er mwyn gwella bywydau pobl sy'n dod i'r ysbyty gydag anawsterau cyfathrebu a llyncu aciwt. Rydym yn wasanaeth person-ganolog wedi ein gyrru i wneud ein gorau glas i'r bobl a wasanaethwn. Rwyf wrth fy modd yn pwyso am newid ac rwy'n adolygu a cheisio gwella ein gwasanaethau'n barhaus.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Er mwyn parhau i gyfrannu at welliannau strategol mewn gwasanaethau therapi iaith a lleferydd yng Nghymru.

Sut gyrhaeddais i yma:

Tair Lefel A yna cymhwyster BSc proffesiynol pedair blynedd (2.1) ym Mhrifysgol Caerdydd. Ers hynny mae wedi'i gwasgu'n gwrs tair blynedd. Graddiais yn 2000. Rwyf wedi hyfforddi'n fewnol mewn swydd a thrwy gyrsiau allanol mewn nifer o sgiliau'n cynnwys llyncu, gofal traceostomi, gofal canser y pen a'r gwddf, fflwrosgopi fideo, FEES, adsefydlu a mwy.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n cyfathrebu'n rhagorol a gweithio'n dda mewn tîm, mwynhau arwain eraill a helpu pobl, mwynhau prysurdeb gwaith aciwt, person tosturiol gyda chymhelliad cryf.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Dawn Leoni

Teitl swydd: Pennaeth Adran Therapi Iaith a Lleferydd, Gorllewin

Lleoliad y gwaith: Therapi Iaith a Lleferydd, Ysbyty Eryri, Caernarfon, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Yn ystod fy ngyrfa, rwyf wedi gweithio mewn ysbytai, cartrefi gofal, unedau adsefydlu a chanolfannau canser ar draws y DU. Fel Therapydd Iaith a Lleferydd rwyf wedi bod yn rhan o wahanol dimau o weithwyr proffesiynol gan eiriol dros bobl gyda thrafferthion cyfathrebu oherwydd strôc, anafiadau pen, canser y pen a'r gwddf, anhwylderau niwrolegol gwaethygol a rhai gydag atal dweud, i enwi dim ond rhai. Rwyf hefyd wedi cefnogi pobl gydag anawsterau llyncu, bwyta ac yfed, er mwyn cynnal eu lles a'u hurddas.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwyf wrth fy modd ag amrywiaeth y bobl yr wyf yn dod i gysylltiad â nhw bob dydd. Nawr fy mod mewn swydd fwy arweinyddol, rwy'n mwynhau'r ymdrech barhaus i sicrhau rhagoriaeth yn ein gwasanaethau fel y byddwn yn ffyddiog yn y Gwasanaeth Iaith a Lleferydd y byddai aelod o fy nheulu fy hun yn ei dderbyn. Rwy'n falch o fod yn rhan o grŵp proffesiynol rhagorol ac ysbrydoledig o fewn Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Parhau i ddysgu ac arloesi mewn arweinyddiaeth glinigol ac mewn trin oedolion gyda phroblemau cyfathrebu a llyncu.

Sut gyrhaeddais i yma:

BSc mewn Astudiaethau Cyfathrebu Clinigol. Ystod o gyrsiau hyfforddi ôl-radd. Diploma Lefel saith mewn Arweinyddiaeth a Rheoli ac Aelod o'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig. Yn astudio ar hyn o bryd ar gyfer MSc mewn Uwch-Ymarfer Clinigol.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Yn ymrwymedig i ofal clinigol rhagorol a pherson penderfynol sy'n canolbwyntio ar y claf a gallu dod â'r gorau allan o bobl, beth bynnag yw eu hoed, cefndir neu anabledd.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Lauren Salisbury

Teitl swydd: Therapydd Iaith a Lleferydd

Lleoliad y gwaith: BCUHB – Dwyrain. Tîm Therapi Iaith a Lleferydd Pediatrig.

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n gweithio gyda rhieni, athrawon, cymorthyddion addysgu, nyrsys meithrin a seicolegwyr addysgol i gyd-gytuno ar dargedau a strategaethau ar gyfer y plentyn er mwyn iddynt fod mor abl â phosib wrth gyfathrebu yn eu hamgylchedd addysgol. Rwy'n eistedd ar banel AHP i gyfrannu at benderfyniadau'n ymwneud â darpariaeth addysgol plentyn. Rwy'n gweithio ag ymwelwyr iechyd, nyrsys arbenigol, pediatryddion a meddygon i adnabod yr arwyddion cynharaf o anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu a sicrhau bod y plentyn yn derbyn y gwasanaethau iawn ar yr amser iawn. Rwy'n gweithio hefyd ym maes addysg gyda ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, dietegwyr a nyrsys i ddarparu cwricwla Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar lefel prifysgol.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau fy ymreolaeth wrth wneud penderfyniadau gyda'r plentyn, yn defnyddio fy ngwybodaeth, sgiliau a'm greddf ond eto'n mwynhau hefyd bod yn rhan o dîm ehangach yn ceisio cyfuno'r penderfyniadau a'u cymhwyso i wahanol wasanaethau a phob agwedd ar fywyd y plentyn.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Dod yn glinigydd uwch-arbenigol a, rhyw ddydd, astudio ar gyfer PhD a darlithio mewn Therapi Iaith a Lleferydd.

Sut gyrhaeddais i yma:

Mi wnes i fy Lefel A (graddau A-C). Yna mi wnes i gwblhau gradd BSc cyn-gofrestru 3.5 mlynedd. Ar hyn o bryd rwy'n astudio am radd Meistr

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol. Gallu creu cytgord â phobl o bob cefndir beth bynnag yw eu hoed, rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol neu gefndir, tarddiad ethnig, crefydd a thueddiad rhywiol. Byddai'n swydd dda i rywun sy'n deall a theimlo'n gryf mai sgiliau cyfathrebu yw sylfaen pob rhan arall o fywyd, e.e. perthnasoedd cymdeithasol, addysg, cyfleoedd gyrfa, iechyd meddwl, iechyd corfforol ac sydd eisiau i bobl fod mor abl yn cyfathrebu ag y medrant fod.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Menna Payne

Teitl swydd: Arweinydd Clinigol MacMillan Therapi Llefarydd ac Iaith (SLT) ar gyfer Canser y Pen a'r Gwddf (ENT)

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Morgannwg Cwm Taf, Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n gweithio fel aelod craidd o dîm canser pen a gwddf amlddisgyblaethol. Mae fy rôl yn cynnwys asesu a darparu cymorth i gleifion a allai fod yn profi problemau o ran cyfathrebu, bwyta ac yfed cyn cael triniaeth, ond hefyd i'w paratoi ar gyfer sgil-effeithiau a chanlyniadau triniaeth. Rwyf hefyd yn cefnogi cleifion yn ystod eu triniaeth ac yna yn ystod eu taith goroesi, gan eu helpu i fyw gyda chanser a'r tu hwnt. Mae fy rôl wedi'i mabwysiadu gan MacMillan ac rwyf wedi manteisio llawer ar gyfleoedd datblygu proffesiynol a rhwydweithio rhagorol. Rwyf hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau Therapi Llefarydd ac Iaith (SLT) i gleifion gyda chanser y Pen a'r Gwddf/anawsterau cyfathrebu ac wrth lyncu, ac rwy'n rheoli tîm bach o staff Therapi Llefarydd ac Iaith. Rwyf hefyd yn gadeirydd Tîm Amlddisgyblaethol (MDT) ar gyfer ein Tîm Amlddisgyblaethol Canser y Pen a'r Gwddf. Rwyf hefyd wedi bod yn ddigon ffodus i gael fy ethol fel arweinydd Grŵp Llywio Clinigol y Pen a'r Gwddf ar gyfer y Rhwydwaith Canser, gan fy ngalluogi i i weithio ar lefel genedlaethol.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwyf wrth fy modd yn meithrin perthnasoedd â chleifion a'u teuluoedd a chanfod y ffordd orau o'u cefnogi yn ystod eu taith canser ac ar ei hôl. Rwy'n cael llawer o foddhad o gefnogi cleifion i addasu i normal newydd wedi canser. Mae amrywiaeth enfawr o waith clinigol ym maes clinigol canser y pen a'r gwddf ac mae pob dydd yn wahanol. Mae ymagwedd y tîm yn un gyfannol a dyma reswm enfawr fy mod i wedi aros yn y maes hwn mor hir. Rwy'n mwynhau gweithio'n agos gyda fy nghyd-weithwyr MDT a cheisio gwella gwasanaethau a gweithredu ar sail adborth cleifion a gwella ymarfer. Rwyf hefyd yn mwynhau fy rôl arwain yn cefnogi ac yn datblygu staff rwy'n eu rheoli'n broffesiynol yn y gwasanaethau SLT, ac mae'r rhan hon o'm swydd yn rhoi boddhad mawr hefyd.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Rwy'n mwynhau fy rôl bresennol. Rwy'n dwlu ar waith clinigol ac mae fy rôl bresennol yn rhoi cydbwysedd da i mi o waith strategol a chlinigol.

Sut gyrhaeddais i yma:

Cymhwysais i yn 2001 gyda gradd dosbarth 1:1 wedi cwblhau BSc pedair blynedd yn UWIC (Prifysgol Metropolitan Caerdydd erbyn hyn). I ddechrau, roedd gen i ddiddordeb mewn gweithio ym maes pediatreg ond yn dilyn lleoliadau clinigol, dilynais i'r llwybr oedolion. Rwyf wedi gweithio ym maes canser y pen a'r gwddf ers 2005 ac wedi bod yn fy swydd bresennol ers 2009, yn darparu gofal clinigol ac arweinyddiaeth strategol. Rwyf wedi cael cefnogaeth i gwblhau sawl modiwl MSc, wedi bod yn brif ymchwilydd ar gyfer prosiect ymchwil a wnaeth ennill Gwobr GIG Cymru ac rwy'n ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n chwaraewr tîm, sy'n hyblyg ac sy'n gallu addasu'n gyflym i sefyllfaoedd sy'n newid. Rhywun sy'n angerddol am ddarparu gofal o safon ac sy'n canolbwyntio ar gleifion gydag ymagwedd gyfannol.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Samantha Price

Teitl swydd: Therapydd Iaith a Lleferydd Plant

Lleoliad y gwaith: Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel SLT Plant mewn ysgolion prif ffrwd, clinigau yn y gymuned ac ysgolion arbennig.

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc rhwng 0-18/19 oed ag anawsterau iaith, lleferydd a thrafferthion cyfathrebu cymdeithasol. Rwy'n gweithio i gefnogi'r plentyn neu berson ifanc i leihau effaith eu hanawsterau cyfathrebu ar eu gweithgareddau gweithredol beunyddiol. Weithiau mae'n golygu gweithio'n uniongyrchol gyda nhw, ond gan amlaf mae'n golygu galluogi'r plentyn / person ifanc, a'r rhai sydd agosaf atynt, i wneud hyn yn annibynnol a pharhaus. Weithiau mae'n fater o wella sgiliau cyfathrebu llafar ond yn aml iawn mae'n ymwneud â gweithio ar ffyrdd dieiriau o gyfathrebu hefyd. Mae Therapyddion Iaith a Lleferydd Plant sydd hefyd yn gweithio gyda phlant ag anawsterau bwyta ac yfed, nid cyfathrebu'n unig. Maen nhw'n asesu a rhoi cyngor ar helpu'r plant i fwyta ac yfed yn ddiogel. Nid yw ein gwaith i gyd yn uniongyrchol gyda'r claf – rhaid i ni hefyd wneud llawer o bethau eraill yn ymwneud â gweinyddu a datblygu gwasanaeth.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwy'n mwynhau addysgu a galluogi eraill, p'un ai'n gleifion, rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol eraill neu'n fyfyrwyr SLT a chydweithwyr llai profiadol. Mae llawer o anawsterau cyfathrebu'n rhai gydol oes – rwy'n mwynhau teimlo fy mod wedi helpu rhywun i ddeall, derbyn a rheoli'r anawsterau gydol oes hyn i gael yr effaith leiaf ar eu bywydau. Nid mater o fod yn gallu 'datrys' y broblem bob tro yw hyn – weithiau nid yw hynny'n bosib ac, yn hytrach, rhaid canfod ffyrdd o wneud cyfathrebu'n haws iddynt.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Mae hyn yn newid o hyd ond bob amser yn dilyn y thema o fod eisiau gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n seiliedig ar anghenion y person – ym mha bynnag rôl y gallaf wneud hyn.

Sut gyrhaeddais i yma:

Mi wnes i radd is-raddedig mewn Astudiaethau Iechyd ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion cyn cwblhau gradd Meistr mewn Patholeg a Therapi Iaith a Lleferydd yng Ngholeg Prifysgol Llundain. Mae'r rhan fwyaf o Therapyddion Iaith a Lleferydd yn gwneud gradd is-raddedig i gymhwyso fel Therapydd Iaith a Lleferydd, ond mae'n bosib ei wneud fel gradd Meistr hefyd – dyna wnes i.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Person hyblyg sy'n meddwl yn greadigol neu 'y tu allan i'r bocs' – mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith clinigol a datblygu gwasanaeth hefyd. Dylai'r person fod yn wydn – mae gweithio gyda'r cyhoedd yn werth chweil ond gall fod yn heriol iawn ar adegau. Dylai'r person fod yn barod i ddysgu'n barhaus, a datblygu eu sgiliau – nid yw'n stopio ar ddiwedd eich hyfforddiant.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Vanessa Hayward

Teitl swydd: Pennaeth Therapi Iaith a Lleferydd

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n bennaeth ar y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd ac yn atebol am y gwasanaeth a chyfrifol am tua 85 o staff, gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd cofrestredig, gweithwyr gofal iechyd cynorthwyol a staff gweinyddol yn gweithio ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion mewn amrywiaeth eang o rolau a lleoliadau. Rwyf hefyd ar hyn o bryd yn Arweinydd Dros Dro ar y Grŵp AHP mewn un ardal yn y Bwrdd Iechyd, gan gynrychioli chwe phroffesiwn therapi i sicrhau ein bod yn weledol a'n llais yn cael ei glywed. Rwyf hefyd yn Is-gadeirydd ar Bwyllgor AHP Cymru (WAHPC).

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Hoffwn barhau fel Pennaeth y Gwasanaeth SLT gyda rôl AHP ychwanegol neu rôl Cymru Gyfan.

Sut gyrhaeddais i yma:

Gradd mewn SLT MSc mewn Rheoli Gwasanaethau Iechyd. Tystysgrif ILM mewn hyfforddiant personol. Wedi mynychu nifer o gyrsiau a chynadleddau arweinyddiaeth. Mi fues yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd ar wahanol bwyllgorau a hefyd yn aelod o bwyllgor a gweithgor Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n mwynhau amrywiaeth pob dydd yn eu gwaith, a delio gyda'r annisgwyl.
Sy'n mwynhau arweinyddiaeth.
Sy'n mwynhau llawer o gyswllt ag amrywiaeth eang o bobl.
Sy'n mwynhau her a thynnu eich hun allan o'ch esmwythyd arferol.

Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Enw: Naomi Brake

Teitl swydd: Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Ysbyty Glangwili, Adran Therapi Iaith a Lleferydd.

Fy rôl fel gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yw:

Rwy'n helpu plant sy'n cael trafferth siarad i ddysgu'r sgiliau sydd ei angen arnynt neu'n helpu i addasu eu hamgylchedd cartref / ysgol fel bo'r plentyn yn derbyn cefnogaeth lawn i ddysgu'r cwricwlwm, gwneud ffrindiau a mynegi ei hun. Rwy'n gweithio'n bennaf drwy ysgolion ond hefyd yn gweithio ochr yn ochr â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys seicolegwyr addysgol a gweithwyr cymdeithasol. Pan fyddaf yn gweithio gyda phlentyn, mae angen ystyried pam eu bod yn cael anawsterau drwy edrych ar natur ddatblygol eu hanawsterau ond hefyd ar eu hamgylchedd cymdeithasol. Mae angen i mi ddeall beth yw'r ffactorau sy'n cyfrannu at yr anawsterau er mwyn ateb yr angen yn y ffordd orau. Weithiau mae angen i mi weithio'n uniongyrchol gyda'r plentyn, dro arall gyda'r staff addysgu a'r rhieni drwy ddarparu cyngor a hyfforddiant union ac anuniongyrchol.

Yr hyn yr wyf yn fwynhau am fy swydd:

Rwyf wrth fy modd yn asesu beth yw anghenion y plentyn a'r ffordd orau i'w hateb. Weithiau mae'n cymryd amser hir i ddeall hyn. Rwy'n mwynhau egluro wrth eraill am therapi iaith a lleferydd oherwydd mae siarad yn aml yn rhywbeth y cymerwn yn ganiataol heb sylweddoli pa mor gymhleth yw mewn gwirionedd. Rwy'n mwynhau hyfforddi eraill mewn sut y mae cyfathrebu'n gweithio a beth sy'n helpu'r plentyn.

Fy uchelgeisiau gyrfaol:

Rwy'n hapus iawn yn fy ngwaith. Nid oes gennyf uchelgais gyrfa heblaw parhau i ddysgu am wahanol feysydd y gwaith!

Sut gyrhaeddais i yma:

Mi wnes i gwrs gradd mewn prifysgol a chefais drwydded i ymarfer fel therapydd iaith a lleferydd.

Byddai fy swydd yn addas i rywun sydd:

Rhywun sy'n mwynhau gweithio gyda phobl.
Rhywun sy'n mwynhau datrys problemau.
Rhywun sy'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm.
Sy'n mwynhau dysgu.

Ddim yn gallu gweld unrhyw broffiliau ar gyfer eich proffesiwn?
Cysylltwch â ni a rhannwch eich Bywyd fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP)!

Dywedwch wrthym am eich rôl fel Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yma.

For more information on the roles of AHPs and routes of entry, visit our website http://ow.ly/sPiK50EzAHM